

Diweddariad am Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Mis Ebrill i fis Mehefin 2021

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y Cyngor yn erbyn ei flaenoriaethau a meysydd llywodraethu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021, yn cynnwys ein defnydd o egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

Cynnwys	
Crynodeb o'r sefyllfa	4
Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion	6
Lles a Chydraddoldeb	9
Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da	12
Lles a Chydraddoldeb	16
Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid	18
Lles a Chydraddoldeb	25
Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd	29
Lles a Chydraddoldeb	35
Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny	39
Lles a Chydraddoldeb	44
Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy	48
Camau Gwella	69
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	70

Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth

Am mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth yw eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni

Drwy E-BOST: timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

Dros y FFÔN: 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

Yn y POST:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,

Cyngor Sir Ddinbych,

Blwch Post 62,

Rhuthun,

LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

Dilynwch ni ar [Twitter](#)

Ewch i [wefan y Cyngor](#) i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i [Borth Llais y Sir](#) a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i [Newyddlen Llais y Sir](#)

Crynodeb o'r sefyllfa

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi'i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail eu statws.

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Da

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Da

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Da

Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwarterl uchaf (y perfformwyr gorau) o'r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Ardderchog', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y [Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan](#).

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Dim ond dau llyn mesur sydd â data newydd sydd gennym i'w gyflwyno yn yr adroddiad yma. Ar ddiwedd mis Mehefin 2021, roedd yna 2297 o bobl ar restr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH). Er mwyn deall y rhesymau dros y cynnydd yn y nifer o bobl ar restr aros SARTH, rydym wedi ffurfio grŵp tasg a gorffen sy'n cynnwys cydweithwyr o'r gwasanaethau Strategaeth Tai, Digartrefedd a Chymorth Tai. Cyfarfu'r grŵp tasg a gorffen ym mis Mai 2021 gan nodi amrywiaeth o resymau dros y cynnydd yn niferoedd SARTH. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chynnwys yn yr adolygiad SARTH gyfredol a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar yr argymhellion a'r cynllun gweithredu a ddaw wedyn. Mae disgwyl yr adroddiad terfynol yn nes ymlaen eleni, ac nid oes angen rhagor o gyfarfodydd grŵp tasg a gorffen.

Cyfrif o bobl a ddefnyddir y llynyn mesur ar gyfer rhestr aros yn unig yw'r Un Llwybr Mynediad at Dai, ac felly er mwyn rhoi cyd-destun i'n hymdrechion rydym wedi cyflwyno llynyn mesur newydd yn ein fframwaith sydd a wnelo â nifer y bobl ar y gofrestr sy'n cael tŷ, boed hwnnw'n dŷ cyngor neu'n eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Sir Ddinbych. Roedd 67 wedi cael tŷ erbyn diwedd mis Mehefin. Dylid nodi hefyd y bu trosiant stoc is o dai trwy gydol pandemig Covid-19.

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Yn profi rhwystrau Tai Gofal Ychwanegol Dinbych

Mae gan tai gofal ychwanegol Dinbych broblemau ar hyn o bryd o ran y gwaith dur a deunydd atal tân y mae'r contractwr RL Davies yn ei ddefnyddio. Mae'r Cyngor a Grŵp Cynefin wedi gwirio beth yw'r diweddaraf am hyn gyda Rheoli Adeiladu ac rydym ni'n aros

am y penderfyniad terfynol. Mae'r contractwr wedi gofyn am estyniad ar drosglwyddo'r adeilad, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto.

Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun

Mae disgwyl diweddariad gan Grŵp Cynefin am benodi contractwr ar gyfer tai gofal ychwanegol Rhuthun. Mae'r oedi oherwydd costau'r adeilad a gofynion yswiriant sydd yn golygu bod angen cynnal gwiriadau penodol. Bydd diweddariad yn yr adroddiad nesaf.

Yn profi rhwystrau: Tai Cyngor Ychwanegol

Mae'r hyder i ddarparu datblygiadau tai cyngor ychwanegol wedi gwella. Mae'r gwaith o ddymchwel yr hen ystafelloedd ocsiwn i ddarparu parcio oddi ar y stryd ar gyfer y fflatiau newydd yn hen siop Granite a Next wedi cael ei gwblhau; derbyniwyd tendrau ar gyfer adeiladu fflatiau ar dir oddi ar The Dell ym Mhrestatyn; ac mae'r gwaith o brynu hen dai cyngor yn Rhuddlan wedi'i gwblhau hefyd.

Yn ychwanegol at hyn, derbyniwyd y cynigion canlynol:

- Derbyniwyd cynnig i brynu dau hen dŷ cyngor ym Mhrestatyn.
- Derbyniwyd cynnig i werthu tir ger Ysgol Pendref yn Ninbych gyda gofyniad y bydd 20% o'r cartrefi a fydd yn cael eu hadeiladu ar y datblygiad yn cael eu cynnig i'r Cyngor.
- Cafodd cynnig y Cyngor i brynu unedau fforddiadwy yn ail gam datblygiad Cysgod y Graig yn Nyserth ei dderbyn gan y datblygwr.

Ar y trywydd iawn: Tai Fforddiadwy

Mae darparu targed ein Cynllun Corfforaethol o 260 cartref fforddiadwy ychwanegol wedi ei gyflawni, ac mae wedi rhagori arno gan fod 364 o gartrefi fforddiadwy wedi dod ymlaen ers 2017. Dyrannwyd £7m o Grant Tai Cymdeithasol i Sir Ddinbych ar gyfer 2021 i 2022. Mae'r arian yma ar gael gan Lywodraeth Cymru i landlordiaid cymdeithasol i ariannu tai cymdeithasol a fforddiadwy, ac eleni, mae'r Cyngor bellach yn gallu cael gafael ar y cyllid yma am y tro cyntaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario mewn modd a fydd yn sicrhau y ceir y buddiannau i'n preswylwyr, gan ddwyn cynlluniau wrth gefn ymlaen ac edrych ar opsiynau newydd.

Mae darparu tai fforddiadwy yn parhau wrth i 13 annedd tai cymdeithasol gael eu cwblhau gan Adra yn Nhrefnant ym mis Ebrill 2021, a 41 fflat gan Wales & West i bobl dros 55 oed ar hen safle Gwesty'r Grange yn y Rhyl ym mis Gorffennaf 2021.

Ar y trywydd iawn: Rhoi Cartrefi Gwag at Ddefnydd o'r Newydd

Mae prosiect Cartrefi Gwag ar y trywydd iawn i gyrraedd targed y Cynllun Corfforaethol o roi bywyd newydd i 500 o dai gwag. Mae'r Gwasanaeth Paru Cartrefi Gwag yn parhau i chwilio am barau a chanlyniadau. Mae'r cynllun peilot fod i gael ei adolygu yn ystod hydref 2021.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Nifer y bobl oedd ar y Gofrestr Angen Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - wedi'i feincnodi'n lleol	9	5	Derbyniol
Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd	10	14	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych – wedi'i feincnodi'n lleol	242	435	Rhagorol
Nifer yr eiddo gwag sy'n cael eu defnyddio eto (hen ddiffiniad) - wedi'i feincnodi'n lleol	179	148	Rhagorol
Nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi gwella o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor – wedi'i feincnodi'n lleol	810	415	Da
Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i feincnodi'n lleol	139	154	Rhagorol
Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) – wedi'i feincnodi'n lleol	57	52.3	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran yr aelwydydd digartref y sicrhawyd cartrefi iddynt (dyletswydd Adran 73) – wedi'i feincnodi'n lleol	30	30.7	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Ni ddisgwylir data 2020 – 2021 ar gyfer y ddau llyn mesur canlynol nes cynhelir yr Arolwg Preswylwyr yn hydref 2021.

Llyn Mesur	2018 i 2019	Statws
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy – wedi'i feincnodi'n lleol	42	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon â'r safon tai yn eu hardaloedd hwy – wedi'i feincnodi'n lleol	52	Derbyniol

Ni adroddir ar ein llyn mesur ynghylch y Cyngor yn cefnogi mwy o Dai Gofal Ychwanegol hyd oni chwblheir y cynlluniau dan sylw.

Llynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

Llyn Mesur	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Statws
Nifer y bobl ar restr aros yr Un Llwybr Mynediad at Dai – wedi'i feincnodi'n lleol	1,508	1,791	1,937	2,139	2,297	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer cronus y bobl a gartrefwyd oddi ar gofrestr yr Un Llwybr Mynediad at Dai	40	140	237	328	67	Amherthnasol. Cyfrif yn unig

Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Llesiant Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynus, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Arolwg Tenantiaid Tai Cyngor

Mae Tai Cymunedol Sir Ddinbych yn cynnal arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr Safonol (STAR) o bob tenant bob dwy flynedd. O'r 3,277 arolwg a anfonwyd i denantiaid tai Cyngor ym mis Hydref 2020, derbyniwyd ymatebion gan 381 o aelwydydd sy'n gyfradd ymateb 11%. Er ein bod yn disgwyl y byddai'n fwy anodd i denantiaid ymateb fel arfer yn ystod y pandemig Covid-19, teimlwyd ei bod yn bwysig cynnal yr arolwg pan oedd fod i gael ei gynnal er mwyn helpu i lywio'r cynlluniau ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig. Mae wedi cael ei nodi gan Lywodraeth Cymru wrth gymharu data landlordiaid, bod y pandemig wedi effeithio ar y data a gyflenwyd gan Sir Ddinbych pan oedd llawer o landlordiaid cymdeithasol eraill wedi cyflwyno data cyn-Covid. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i holl gynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ailadrodd yr arolwg STAR eto ar gyfer mis Ebrill 2022. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ailadrodd yr arolwg eto'n nes ymlaen eleni. Er mwyn darllen yr adroddiad llawn a dadansoddiad o ymatebion yr arolwg, ewch i [adroddiad Arolwg Tenantiaid Tai Cyngor](#), a anfonwyd i'r Pwyllgor Cymunedau ym mis Gorffennaf 2021.

Pwrpas yr arolwg yw **cynnwys** tenantiaid tai cyngor sydd yn debygol o fod **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**. Bydd hefyd yn fuddiol i bobl â'r nodweddion gwarchoddedig **Hil, Anabledd, Oedran, Crefydd neu Gred**. Mae'r arolwg yn asesu boddhad cyffredinol, mae'n ceisio adborth ar flaenoriaethau i denantiaid ac yn helpu i ddylanwadu ar gynlluniau ar gyfer cyflwyno gwasanaeth yn y dyfodol trwy gymryd dull **hir dymor** a'r nod yw **atal** unrhyw broblemau rhag digwydd yn y dyfodol.

Taliadau Dewisol Tai

Ym mis Gorffennaf 2021, rhyddhawyd ffigurau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac maent yn dangos bod Cyngor Sir Ddinbych wedi talu £251,600 mewn Taliadau Dewisol Tai rhwng 2020 a 2021 i'r preswylwyr hynny oedd angen cymorth ychwanegol gyda chostau tai. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi gwario'r arian a ddyrannwyd ac a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd o 27% yn nyranïad y flwyddyn flaenorol. Gyda'r arian, llwyddwyd i helpu 578 o hawlwrwr ar draws Sir Ddinbych rhwng 2020 a 2021, sef 42 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol fod pandemig y Coronafeirws wedi amlygu lefel y pwysau ar deuluoedd incwm isel. Bwriad y taliad i'r rhai sydd eisoes yn derbyn budd-dal

tai, sydd hefyd yn debygol **o fod o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**, yw rhoi cymorth ychwanegol iddynt megis diffyg rhent neu gostau symud. Nod hyn fydd **atal** y teuluoedd yma rhag rhagor o broblemau ariannol yn y tymor byr a'r **hirdymor**.

Fframwaith Gwelliannau Allanol ac Arbed Ynni ar gyfer Tai'r Cyngor

Penderfynwyd bwrw ymlaen â dyfarnu'r fframwaith 4 blynedd sy'n angenrheidiol er mwyn caffael contractau gwelliannau allanol i gynnal cyflwr stoc dai'r Cyngor yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru. Bydd y gwaith cyfalaf nesaf sydd wedi'i gynllunio yn cynnwys toeau newydd, ailosod rendr, ailosod llinell doeau a gwelliannau amgylcheddol, yn ogystal â gwella camau effeithlon o ran ynni er mwyn sicrhau bod targedau datgarboneiddio corfforaethol a Llywodraeth Cymru'n cael eu cyflawni lle bo hynny'n ariannol hyfyw. Yn ddiweddar rydym wedi treialu ffyrdd newydd o weithio a systemau arloesol ar ein heiddo sydd wedi eu gwella yn fwyaf diweddar, a hynny gyda chymorth rhaglen Grant Ôl-Osod Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn darparu gwelliannau arbed ynni i 55 cartref fel rhan o'r rhaglen gorchuddion allanol gyfredol. Mae'r gwelliannau wedi cynnwys PV solar integredig, gwell inswleiddiad waliau drwy inswleiddio waliau allanol (EWI) a gosod technoleg batris i harneisio ynni solar.

Fel rhan o'r gwaith hefyd rydym wedi gosod cyfarpar monitro ynni yn ein cartrefi er mwyn ein galluogi i feddwl yn yr **hirdymor** drwy adrodd am fuddion y gwaith ôl-osod ac i olrhain gwelliannau cyn ac ar ôl y gwaith gwella. Bydd y fframwaith newydd nid yn unig yn helpu i **atal** newid hinsawdd; bydd hefyd yn cyflwyno cyfraniad budd cymunedol sylweddol i'r economi leol ac yn cynnwys cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddiant, a bydd o fudd yn benodol i'r rhai **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Prosiect Ymyrraeth Gynnar i Atal Digartrefedd

Mae'r Cyngor yn ceisio barn preswylwyr, ysgolion, colegau a sefydliadau allweddol eraill wrth geisio datblygu prosiect newydd i helpu pobl i nodi a ydynt mewn perygl o ddigartrefedd yn gynharach o lawer. Mae'r cyfnod ymgynghori bellach wedi gorffen a bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi i gychwyn datblygu'r prosiect. Nod yr ymgysylltu yma yw bod y Cyngor yn **cynnwys** preswylwyr a budd-ddeiliaid allweddol i siapio sut y dylai'r prosiect fod. Nod y dull yma yw cymryd dull **hirdymor** i **atal** digartrefedd i weld os all y Cyngor a sefydliadau eraill weithio gydag unigolion mewn perygl yn gynharach. Bydd hyn o fudd yn benodol i'r rhai **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Ym mis Gorffennaf 2021, roedd cysylltiad band eang cyflym iawn (>30mbps) yn Sir Ddinbych yn 92.63%; cynnydd bach iawn o 0.40% ers mis Mawrth.

Ym mis Gorffennaf 2021, roedd gan 4.34% eiddo fand eang o 10mbps neu is. Mae hyn yn welliant o 0.11% ar y cyfnod blaenorol; serch hynny, nid ydym wedi gweld gwelliannau sylweddol mewn perfformiad yn y maes yma ers mis Ionawr 2020. Y ffigur dros Gymru gyfan yw 2.33%.

Cafodd data ar argaeledd signal 4G gan bob gweithredwr sydd ar gael ar ffyrdd A a B Sir Ddinbych ei gyhoeddi ym mis Mai 2021. Hyd yn hyn, mae gan 49.2% o ffyrdd signal 4G gan bob gweithredwr. Ein huchelgais oedd sicrhau darpariaeth ar 60% ohonynt ar y lleiaf.

Gwnaed 56% o drafodion ar y we rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021, o'i gymharu â chyfanswm nifer y trafodion a wnaed gan ddefnyddio pob sianel fynediad. Mae hyn yn gynydd o 4% ers yr un cyfnod yn 2019.

Gwnaed 67% o ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi yn ddiogel o fewn yr amser targed. Rhwng 2020 a 2021, gohiriodd y Cyngor ei amserlenni archwilio priffyrdd arferol, gan ganolbwyntio ar lwybrau strategol yn unig, h.y. ein llwybrau cynnal a chadw/graeuanu'r gaeaf. Pan ailgychwynnodd archwiliadau llawn rhwng 2021 a 2022, roedd yn anochel y byddai yna nifer fawr o ddiffygion Categori 1, ac felly fe grëwyd ôl-groniad o waith. Rydym wedi bod yn gweithio drwy'r ôl-groniad yma yn ystod yr haf ac rydym ni'n hyderus y bydd perfformiad yn gwella erbyn chwarter 3.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Ar y trywydd iawn: Band Eang Cyflym iawn a Rhwydweithiau Ffôn Symudol

Mae'r Swyddog Cefnogi Digidol yn parhau i gefnogi unigolion a busnesau sydd â phroblemau cysylltiad gwael. Hyd yn hyn, mae 116 o unigolion a busnesau wedi cael cyngor, ac mae 56 o'r rhain wedi dod o hyd i ddatrysiad i'w problemau. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin cafwyd 11 ymholiad newydd am gefnogaeth gymunedol ddigidol, roedd 2 ohonynt yn fusnesau. Mae gwaith wedi parhau gyda 16 o'r Partneriaethau Ffibr Cymunedol ac Openreach, ond bu rhywfaint o oedi am beth amser oherwydd oedi cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau ail gam Talebau Atodol Gigabit. Rydym ni hefyd yn parhau i roi pwysau ar Openreach i symud ymlaen â phrosiect Nantyr (a'r pentrefi cyfagos). Mae'r broses hon yn cymryd yn hirach na'r disgwyl.

Bydd gweddill cyllideb y prosiect yn cael ei ailddyrrannu i chwilio am ddatrysiad i eiddo gwyn yn y sir a byddwn yn penodi Swyddog Cefnogi Digidol ychwanegol.

Ar y trywydd iawn: Allgáu Digidol

Lansiodd y prosiect manau digidol llyfrgelloedd yn llwyddiannus sydd yn cynnwys ystafelloedd digidol unigol a manau 1:1, ac yn achos Llyfrgell Dinbych, pod dynodedig. Mae'r manau'n cael eu blaenoriaethau i'w defnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Sir Ddinbych yn Gweithio, a darparwyr eraill sydd yn canolbwyntio ar gefnogi pobl i gael gwaith.

Mae oedi'n parhau gydag ambell i ffrwd waith oherwydd Covid-19, a bydd y rhain yn cael eu hail-lunio dros y cyfnod nesaf.

Ar y trywydd iawn: Isadeiledd ar gyfer Digwyddiadau

Mae cynrychiolwyr o'r prosiect wedi mynychu chwe Grŵp Ardal yr aelodau er mwyn sôn am amcanion, meini prawf ac amserlenni'r cronfa pecyn cefnogaeth wedi'i dargedu. Fe anfonwyd llythyrau yn egluro'r cynllun i bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned. Mae'r [gronfa bellach yn fyw ar gyfer ceisiadau / datganiadau o ddiddordeb](#), a bydd yn cau ar 30 Medi 2021.

Mae cerbyd a threlar wedi cael ei archebu i gefnogi'r cynllun llogi cyfarpar symudol ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar frandin i'r cerbyd. Nod y prosiect yw bod system archebu yn weithredol erbyn mis Rhagfyr 2021.

Mae ymgysylltu â'r hyrwyddwr wedi'i oedi tan hydref 2021, er mwyn paratoi ar gyfer haf 2022.

Briff prosiect: Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau

Mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol wedi gofyn am achos busnes i lunio 'Cynllun Cludiant Cynaliadwy'. Bydd y cynllun yn cefnogi agenda lleihau carbon.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	3.6	3.5	Derbyniol
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarthiadol B sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	5.3	5	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarthiadol C sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	8.2	7.6	Da
Canran yr oedolion (16 neu'n hŷn) sydd wedi defnyddio'r rhyngwrwyd yn y tri mis diwethaf (Conwy a Sir Ddinbych) - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	87.7	89.8	Derbyniol

Llinyn Mesur	2014	2019	Statws
Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).	14	14	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Statws
Canran o ardaloedd all dderbyn Cysylltiad Cyflym lawn yn Sir Ddinbych (>30 Mbps) - wedi'i feincnodi'n lleol	92	91.83	91.87	92.23	92.63	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran o eiddo gyda Band Eang o 10 Mbps neu lai - wedi'i feincnodi'n lleol	4.63	4.76	4.71	4.45	4.34	Derbyniol
Canran y trafodion a wneir ar y we, o'i gymharu â nifer llawn y trafodion a wneir gan ddefnyddio pob sianel fynediad	52	48	50	50	56	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Y ganran o signal symudol 4G ar ffordd (holl weithredwyr) - wedi'i feincnodi'n lleol	45.48	Aros am ddata	49.8	Aros am ddata	49.2	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - wedi'i feincnodi'n lleol	Dim data oherwyd Covid-19	Dim data oherwyd Covid-19	Dim data oherwyd Covid-19	87	67	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y 3 mis aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gwefru Cerbydau Trydan

Mae deddfwriaeth newydd wedi gosod 2030 fel dyddiad gwahardd gwerthu cerbydau petrol a disel, ac ni fydd ceir hybrid yn cael eu gwerthu o 2035 ymlaen. Er bod lefelau perchnogaeth cerbydau trydan yn Sir Ddinbych yn dal yn isel, disgwylir y bydd hyn yn dechrau newid wrth inni symud tua'r terfyn amser hwn.

Ystyrir bod diffyg Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan yn un o'r rhwystrau mawr sy'n atal pobl rhag newid eu cerbydau arferol am rai trydan, ac ychydig iawn o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan sydd ar gael i'r cyhoedd i ffwrdd oddi wrth goridor yr A55. Hefyd, nid oes gan bob eiddo preswyl y ddarpariaeth i feddu ar system wefru oddi ar y stryd.

Yn ystod y chwarter, cadarnhaodd y Cyngor gynlluniau i symud ymlaen â phrosiect peilot i osod Pwyntiau Gwefru Cyflym i Gerbydau mewn wyth lleoliad ar draws y sir. Bwriad hyn yw darparu Pwyntiau Gwefru yn agos at brif lwybrau yn y sir, a threialu darpariaeth Pwyntiau Gwefru ger rhai ardaloedd preswyl i roi opsiwn i breswylwyr sydd heb opsiynau gwefru/parcio oddi ar y stryd. Rydym yn gobeithio cael gafael ar gyllid grant gan Gynllun Gwefru Oddi ar y Stryd Swyddfa Cerbydau Sero tuag at rhai o'r Pwyntiau Gwefru hyn.

Mae'r prosiect peilot hwn yn cyd-fynd â phrosiectau Cerbydau Trydan eraill: Tacsis trydan ac ymestyn fflyd cerbydau trydan y Cyngor ac isadeiledd gwefru. Wrth i'r hyn rydym ni'n ddysgu dyfu fe fyddwn ni mewn sefyllfa i ystyried darpariaeth a/neu gamau eraill at y dyfodol.

Fe allai'r prosiect peilot fod o fydd i'r rhai **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol** hefyd gan y bydd y model gweithredol yn caniatáu i'r Cyngor osod y ffioedd. Serch hynny, er mai'r nod yw rheoli costau i'r defnyddiwr, fe fydd angen bod yn fodel fasnachol hyfyw. Bydd y prosiect peilot yn defnyddio'r pum ffordd o weithio o dan egwyddor datblygu

cynaliadwy, gan edrych ar ddatrysiadau **hir dymor** sydd yn **atal** rhagor o niwed a llygredd yn ein hamgylchedd, **integreiddio** a **chydweithio** gyda chynlluniau presennol a golau partneriaid i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd, tra'n ceisio **cynnwys** preswylwyr yn natblygiad ein isadeiledd wrth gwrs. Cafodd y lleoliadau a ddewiswyd i'w cyflwyno yng Ngham 1 y cynllun peilot eu dewis yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb fanwl.

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Bu cynnydd yn nhrosedd ddomestig yn Sir Ddinbych yn chwarter cyntaf 2021 i 2022; o ran tueddiadau ar y cyfan, mae'r lefelau'n amrywio'n wythnosol. Ar y cyfan, bu cynnydd o 4.1% mewn Trosedd Ddomestig yng Ngogledd Cymru hyd yn hyn yn 2021 i 2022. Y nifer cronus o ddiodefwr trais domestig dro ar ôl tro yn Sir Ddinbych ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon yw 148. Mae hyn yn gynydd o 1.4% o'i gymharu â'r un amser y llynedd (146 diodefwr). Ar y cyfan, bu gostyngiad yng Ngogledd Cymru o -4.7% mewn diodefwr trais domestig dro ar ôl tro yn y cyfnod adrodd yma ar gyfer 2021 i 2022. Mae nifer y rhai sydd yn cyflawni camdriniaeth ddomestig fwy nag unwaith yn y cyfnod yma wedi gostwng yn sylweddol yn Sir Ddinbych, o -30.8% o'i gymharu â'r un amser y llynedd. Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru yn dangos bod y rhai sydd yn cyflawni camdriniaeth ddomestig fwy nag unwaith wedi gostwng o -44.6%.

Ar wefan genedlaethol Dewis Cymru, nifer yr adnoddau ar gyfer Sir Ddinbych oedd 565 ar ddiwedd mis Mehefin. Dyma gynydd o 20.21% ar y ffigurau y gwelsom ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Mae'n bosibl fod pandemig Covid-19 wedi arwain pobl a darparwyr gwasanaeth i ddefnyddio'r platfform yn fwy rheolaidd. Ar ddiwedd mis Mehefin 2021, roedd yna 10,962 o adnoddau ar gyfer Cymru ar Dewis Cymru, a 2,794 ar gyfer Gogledd Cymru.

Y nifer o asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yw 114. Mae hyn 2.7% yn uwch na'r un cyfnod y llynedd (111 o asesiadau). Mae cefnogaeth i ofalwyr wedi parhau ac mae cefnogaeth gymunedol wedi bod ar gael pa unai ydi gofalwyr wedi cael asesiad neu beidio.

Mae'r data ar gyfer hyd cyfartaledd y mae oedolion (65 oed neu hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl yn parhau yr un fath â'r cyfnod adrodd diwethaf, sef 1,053 diwrnod. Mae'n debygol bod y ffigur hwn oherwydd canllawiau pandemig Covid-19 o ran

ynysu a gwarchod preswylwyr diamddiffyn. Er bod ein ffigurau'n parhau'n uchel mewn cysylltiad â chyfartaledd Cymru (800), mae gan Sir Ddinbych boblogaeth sydd â chyfartaledd oedran uchel. Rydym ni dal o fewn ein targed o 1,200 diwrnod.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Cynnwys pobl wrth lunio a gwella gwasanaethau

Mae dogfennau drafft i gefnogi polisi ymgysylltu a fframwaith wedi cael eu llunio a bydd angen eu hadolygu gan gymheiriaid gan Gefnogwyr Ymgysylltu yn ystod chwarter 2 o'r flwyddyn ariannol bresennol.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i chwilio am rywbeth i gymryd lle Porth Sgwrs y Sir. Cyflwynwyd adroddiad cais am newid i Fwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol a chafodd ei Gymeradwyo mewn Egwyddor ar 7 Gorffennaf, 2021. Mae hyn yn golygu y gall yr ail ddyraniad o danwariant o fan arall yn y prosiect, a achoswyd yn sgil dyfarniad hwyr i'r prosiect a Covid-19 sy'n atal rhai o'r gweithgareddau, fynd yn eu blaenau.

Yn profi rhwystrau: Cefnogi Gofalwyr

Mae'r Tîm Prosiect Cefnogi Gofalwyr yn parhau i fynd i'r afael â heriau ac yn lliniaru unrhyw risgiau. Mae Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych wedi parhau i gwrdd a rhannu gwybodaeth trwy gydol y pandemig, yn cynnwys gyda sefydliadau Trydydd Sector, ac mae bellach yn ystyried sut y gall ailgychwyn cefnogaeth wyneb i wyneb. Trefnodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru ddigwyddiad prawf, sef taith gerdded â phellter cymdeithasol o amgylch Llyn Morol y Rhyl, fel rhan o ddatliadau Wythnos Genedlaethol y Gofalwyr; roedd hyn yn gyfle i fesur sut roedd gofalwyr yn teimlo am gyfarfod ei gilydd ar ôl cyhyd ac i asesu risg a monitro unrhyw faterion ymarferol, gyda'r bwriad o ailafael mewn model darparu hybrid yn yr hir dymor.

Dros gyfnod y pandemig, rydym wedi dysgu fod rhai gofalwyr wedi ymgysylltu gyda thechnoleg, tra bod rhai eraill heb. Mae prosiect peilot ar y cyd wedi dechrau gyda Chyngor Sir Conwy a Hafal, gyda chyllid am y 12 mis nesaf, i ddatblygu grŵp rhwydwaith cymdeithasol Pwyso i Siarad i ofalwyr sydd wedi mynegi diddordeb bod yn rhan o'r cynllun peilot. Bydd gan bob gofalwr fotwm i'w bwysu, sydd wedi'i gysylltu â'u llinell ffôn ac nid oes

angen cysylltiad rhyngwyd. Gan ddefnyddio'r system yma, bydd gofalwyr yn cael eu paru'n ofalus yn ôl yr amser maent wedi'i ddweud sy'n well ganddynt i gael galwad gan ofalwr arall, gyda'r bwriad o atal unigedd ac unigrwydd a mynd i'r afael ag allgáu digidol.

Gwnaed cynnydd pellach hefyd gydag adolygiad o broses atgyfeirio gofalwyr, sy'n cynnwys cyfraniad gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru a rheolwyr tîm gweithredol Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae Systemau Busnes hefyd yn parhau â'u gwaith o sicrhau bod dulliau cofnodi Sir Ddinbych yn gyson ag awdurdodau lleol eraill ac maent wedi'u paratoi i gasglu data yn erbyn fframwaith gwella perfformiad Llywodraeth Cymru (a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2020).

Yn ystod Wythnos Gofalwyr a gynhaliwyd rhwng 7 - 13 Mehefin, manteisiodd y Cyngor ar y cyfle i roi gwybod i ofalwyr di-dâl am y gefnogaeth sydd ar gael i gael gafael ar gyfnodau byr o seibiant. Mae hyn yn galluogi gofalwyr i gael cydbwysedd rhwng bywyd a gofalu, mae hyn yn bwysig nid yn unig i'r gofalwr, ond hefyd i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano. Gall seibiant oddi wrth ofalu gynnwys aros dros nos mewn gwesty lleol, gyda gweithwyr asiant cartref yn darparu gwasanaeth eistedd gyda phobl neu daleb Pontio'r Bwlch i ddarparu cymorth yn y cartref i ganiatáu cyfnodau byr o seibiant. Mae dulliau eraill o gefnogi yn cynnwys opsiynau i'r unigolyn y gofalir amdano i gael arhosiad byr dymor mewn cartrefi preswyl neu gynlluniau tai gofal ychwanegol lleol. Mae'r Cyngor hefyd wedi adnewyddu dau eiddo yn Rhuthun a Chorwen i ganiatáu cyfnodau o seibiant. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag [Un Pwynt Mynediad](#).

Ar y trywydd iawn: Lleihau Cam-drin Domestig

Ni fydd hyfforddiant ymyrraeth gynnar ar gyfer plant *Domestic Abuse, Recovering Together* yn bosibl nes y caniateir hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae rhaglenni STAR (Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch) ar stop hefyd ac nid yw'r adnoddau staff ar gael i ddatblygu Spectrum (dull ysgol gyfan i fynd i'r afael â cham-drin domestig). Rydym yn edrych ar raglen 'lach gyda'n Gilydd', rhaglen ymyrraeth i blant. Bydd hyfforddiant Spectrum i ysgolion yn cael ei ymchwilio ymhellach yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu: mae 36 hyfforddi'r hyfforddwyr lefel 2 ar gael a phump cefnogwr lefel 3. Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid lefel 2 i'w gyflwyno ac fe benderfynwyd defnyddio cyllid RDA i helpu i ariannu lefel 2 ar draws CSDd. Bydd £3,000 yn cael ei ddyrannu i ddechrau.

Mae polisi cam-drin domestig Cyngor Sir Ddinbych (yn cynnwys y broses atgyfeirio) wedi cael ei ddiweddarau ac mae'n ffurfio rhan o waith ehangach y Cyngor i leihau cam-drin domestig, a bydd yn cefnogi gweithwyr sydd yn dioddef cam-drin domestig neu sydd wedi ei brofi yn y gorffennol. Mae'n darparu arweiniad i reolwyr allu adnabod arwyddion o gam-drin domestig a pha gefnogaeth sydd ar gael i staff, yn ogystal â chynnig absenoldeb oherwydd cam-drin domestig a fydd yn galluogi gweithwyr i chwilio am dai diogel neu fynychu apwyntiadau meddygol a chwrsela.

Ar y trywydd iawn: Gweithio at fod yn Gyngor sy'n Deall Dementia

Mae Tîm Prosiect Cyngor sy'n Deall Dementia wedi cael cydnabyddiaeth gan Gymdeithas Alzheimer's am weithio tuag at fod yn sefydliad sydd yn deall Dementia. O fewn 12 mis diwethaf y gydnabyddiaeth yma, rydym:

- wedi cwblhau mwyafrif gweithgareddau ein cynllun gweithredu, er gwaethaf effaith cyfyngiadau Covid-19 a'r anallu i gyfarfod wyneb yn wyneb.
- Wedi rhannu arferion da ar draws holl wasanaethau'r Cyngor drwy roi gwybodaeth ar LINC.
- Wedi hyrwyddo hyfforddiant priodol i godi ymwybyddiaeth am ddementia ar draws y Cyngor.
- Wedi ymestyn a chydgrynhai ein cysylltiadau gyda chymunedau a grwpiau sy'n deall dementia ar draws Sir Ddinbych a'r rhanbarth.
- Wedi cyflwyno ein hunanasesiad blynyddol cyntaf o'n heffeithiolrwydd dros y flwyddyn gyntaf o gydnabyddiaeth gyda Chymdeithas Alzheimer, a chofnodi ein cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gellir ychwanegu ato neu ei ddiweddarau ar ôl pob cyfarfod Cyngor sy'n Deall Dementia.

Crëwyd cysylltiadau cryfach gyda phrosiect Cymunedau sy'n Ymwybodol o Ddementia Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ac mae aelodau'r grŵp yma'n mynychu eu cyfarfodydd rheolaidd. Mae cynrychiolwyr o rai cymunedau sydd yn gweithio tuag at gael statws Deall Dementia hefyd yn mynychu'r cyfarfod yma, ac mae cydweithio wedi bod yn fuddiol o ran cefnogi ei gilydd a bodloni gofynion y cynllun gweithredu dementia.

Roedd gan Sir Ddinbych bresenoldeb da ar gyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gweithgareddau amrywiol i godi ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Gweithredu dros

Dementia, 17 -2 Mai, 2021, a chododd y Grŵp Llywio arian ar gyfer Cymdeithas Alzheimer's. Mae'r rheolwr prosiect wedi derbyn hyfforddiant am straeon digidol ac mae'r is-grŵp rhanbarthol cyntaf wedi cael ei gynnal i edrych ar brosiect 'Mentro Gyda'n Gilydd' gyda chefnogaeth gan Dîm Cyfathrebu'r Cyngor. Mae'r grŵp yn gweithio'n agos gyda'r tîm rhanbarthol ac yn cydweithio i wella gwasanaethau i'r rhai sy'n byw gyda dementia. Rydym ni'n chwilio yn benodol ar feysydd megis darpariaeth egwyl a seibiant byr, gan ddefnyddio dull creadigol a hyblyg.

Wedi'i gwblhau: Datblygu Cymunedol yn y Rhyl

Mae'r holl waith bellach wedi'i gwblhau ar gyfer Prosiect Strydoedd Mwy Diogel Gorllewin y Rhyl ac mae digwyddiad i ddathlu'n cael ei gynnal yn yr ardd fwyd cymunedol newydd ar 3 Awst 2021. Bydd pawb a fu'n rhan o greu a chyflawni'r prosiectau, yn cynnwys Cefnogwyr Cymdeithasol, yn derbyn cydnabyddiaeth a diolch am eu hymroddiad trwy gydol y camau cynllunio a gweithredu. Y digwyddiad fydd lansiad swyddogol yr ardd gymunedol, a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r preswylwyr i ddechrau mwynhau a thyfu eu bwyd eu hunain, plannu'r gwllâu blodau a mwynhau'r cymdeithasu. Byddant yn cael eu cefnogi gan Wasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych yn y dyfodol.

Ar y trywydd iawn: Datblygu Cymunedol Ledled y Sir

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, rydym wedi cefnogi 53 prosiect/grŵp newydd ac wedi darparu cefnogaeth barhaus i 9 arall. Yn ogystal â'n cefnogaeth barhaus i brosiectau cymdeithasol a hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyllido, roedd y Tîm Datblygu Cymunedol, ynghyd â chydweithwyr yn rhan o'r gwaith asesu a chyflwyno ceisiadau i Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Derbyniwyd cyfanswm o 31 cais, ac ar ôl proses asesu gadarn cafodd 15 prosiect eu rhoi ar y rhestr fer i'w cyflwyno, oedd werth £2,858,838. Mae disgwyl canlyniad gan Lywodraeth y DU ddiwedd mis Gorffennaf.

Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol wedi bod yn gweithio gyda TGCh i lunio ei system CRM ei hun i gofnodi ac olrhain pob ymholiad am gefnogaeth. Mae yn y cyfnod profi ar hyn o bryd. Ar yr un pryd, rydym wedi adolygu cynnwys y wefan ac rydym wedi cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i gadw mewn cysylltiad gyda'n rhestr bostio. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn rhan o hyrwyddo Cyllid Isadeiledd Digwyddiadau, gan fynychu cyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau i drafod cyfleoedd sydd ar gael i gymunedau Sir Ddinbych sydd

yn cynnal digwyddiadau. Mae Swyddogion Datblygu Cymunedol wedi mynychu paneli grant yn ddiweddar ar gyfer cronfeydd Bubo Bank a fferm wynt Gwynt y Môr.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Ni ddisgwylir data 2020 i 2021 ar gyfer y llinynnau mesur canlynol nes bod arolygon gofalwyr a phreswylwyr yn cael eu cynnal ddiwedd yr haf a'r hydref.

Llinyn Mesur	2018 i 2019	Statws
Canran y bobl sy'n dweud eu bod wedi cael y wybodaeth neu gyngor iawn pan oedd arnynt ei angen - wedi'i feincnodi'n lleol	88	Derbyniol
Canran y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn cael cefnogaeth i barhau i ddal ati i ofalu - wedi ei feincnodi'n lleol	55	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a chymorth - wedi'i feincnodi'n lleol	84	Derbyniol
Canran y bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" - wedi'i feincnodi'n lleol	59	Derbyniol
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eu hardal leol - wedi'i feincnodi'n lleol	27	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Statws
Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddynt yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur yn y flwyddyn hyd yma)	146	247	371	555	148	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy mewn 12 mis)	26	43	70	108	18	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Nifer yr adnoddau sy'n fyw ar wefan Dewis Cymru - wedi'i feincnodi'n lleol	470	543	562	623	565	Rhagorol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Statws
Nifer yr asesiadau o anghenion am gymorth a wnaed ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn	111	320	404	878	114	Amherthnaso Cyfrif yn unig
Yr amser ar gyfartaledd y mae oedolion 65 mlwydd neu hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl - wedi'i feincnodi	984	1,028	1,046	1,053	1,053	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cyfrifoldeb bydeang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd rhwng mis Ebill a mis Mehefin i gefnogi Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ac a fu o fudd i bobl â nodweddion a ddiogelir neu bobl o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amser i Newid Cymru

Mae'r Cyngor wedi llofnodi Adduned Cyflogwr Amser i Newid Cymru i herio'r stigma a gwahaniaethu sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Rhaglen genedlaethol ydyw sy'n cael ei rhedeg gan elusennau Hafal a Mind Cymru. Rydym eisiau rhoi stop ar y tawelwch a rhoi diwedd ar stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Bydd un o bob pedwar ohonom yn wynebu problem iechyd meddwl ar unrhyw adeg. Mae naw mewn deg o bobl sydd wedi wynebu problem iechyd meddwl wedi cael eu trin yn negyddol gan bobl eraill o ganlyniad.

Mae'r addewid yma'n ymrwymiad cyhoeddus i newid y ffordd rydym ni'n meddwl ac yn ymddwyn o ran iechyd meddwl ar bob lefel yn y sefydliad. Drwy ddewis bod yn agored am iechyd meddwl, rydym ni gyd yn rhan o symudiad sy'n newid y sgwrs ynglŷn ag iechyd meddwl a sicrhau nad oes unrhyw un yn teimlo'n ynysig neu'n unig am fod â phroblem iechyd meddwl.

Mae'r gwaith yma'n cefnogi'r nodwedd a ddiogelir sef **Anabledd** ac mae'n gwbl hygyrch i bob aelod staff. Mae'n enghraifft ardderchog o **gydweithio** sydd yn ceisio trochi a **chynnwys** staff sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl, gan gynnig cymorth a chefnogaeth i'w hysgogi nhw yn yr **hirdymor**.

Sefydliadau sy'n Deall Dementia

Gan yn ymateb i ymchwil sydd yn datgelu'r heriau y mae Covid-19 yn eu cyflwyno i bobl sydd yn byw gyda dementia, mae prosiect 'Mentro Gyda'n Gilydd' Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru wedi creu cyfres o fideos calonogol. 'Straeon digidol' yw'r fideos i roi sicrwydd i unrhyw un sydd yn poeni am fynd yn ôl allan i'w cymunedau, a'u nod yw lleihau pryder a lleihau unigedd wrth i'r cyfyngiadau lacio. Dywedodd Cymdeithas Alzheimer's bod bron i hanner (46%) o bobl sy'n byw gyda dementia yn dweud fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, gydag 1 mewn 3 yn dweud eu bod wedi colli hyder yn mynd allan ac ymgymryd â thasgau dyddiol. Mae Cyngor Sir Ddinbych, drwy grwpiau Cyngor sy'n Deall Dementia a Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych, wedi hyrwyddo 'Mentro gyda'n Gilydd' a'r adnoddau sydd ar gael, yn enwedig y ffilmiau a grëwyd. Gallwch weld y ffilmiau drwy glicio ar y dolenni isod:

- [Saesneg](#)
- [Cymraeg](#)

Mae'r fenter yma o fudd yn uniongyrchol i'r nodweddion a ddiogelir sef **Oedran** ac **Anabledd**; serch hynny, mae'n gwbl hygyrch i bawb, felly **yr holl nodweddion a ddiogelir**. Mae'n enghraifft ardderchog o **gydweithio** sydd yn ceisio trochi a **chynnwys** pobl sydd yn byw gyda dementia yn ogystal â'u teuluoedd a ffrindiau, gan gynnig cymorth a chefnogaeth i'w hysgogi yn yr **hirdymor**.

Menter Yn Ôl i Fywyd Cymunedol

Menter gan Gwelliant Cymru yw Yn Ôl i Fywyd Cymunedol, ac mae'n darparu adnoddau i arweinwyr cymunedol i'w haddasu i bobl yn eu hardal leol sydd yn cael trafferth ymdopi ers y pandemig i fynd yn ôl i fywyd cymunedol. Mae yna deimlad bod adnoddau Mentro Gyda'n Gilydd yn help llaw sydd ddirfawr eu hangen i'n tywys ni'n Sir Ddinbych, i fod yn gyfarwydd ac yn glir am y dalgylch a'r amgylchedd sydd yn rhan o'n bywydau bob dydd ac mae'r rhain ar gael i bob sir yng Nghymru. Mae nifer ohonom wedi cael ein hynysu a'n heffeithio gan y pandemig, trwy golli arferion a chysylltiadau, ac mae Mentro Gyda'n Gilydd yn rhoi cipolwg ac ysgogiad i ail gysylltu â bywyd cymunedol. [Cliciwch yma](#) i gael gafael ar adnoddau Yn Ôl i Fywyd Cymunedol.

Mae'r fenter hon yn gwbl hygyrch i bawb, felly yr holl **nodweddion a ddiogelir** ond yn benodol **Oedran ac Anabledd**. Mae'n enghraifft ragorol o **gydweithio** sydd yn ceisio trochi a **chynnwys** pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac angen ein cefnogaeth. Mae'n helpu i leihau teimladau ynysig ac unigrwydd, ac mae'n mynd i'r afael â chefnogaeth ar sail **hirdymor**.

Cefnogaeth i Ofalwyr a Recriwtio

Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych sesiwn recriwtio gofal ar-lein ar 18 Mai, gyda'r bwriad o recriwtio 18 aelod o staff newydd i nifer o swyddi gofal, yn cynnwys gweithwyr cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned; cynorthwywyr gofal dydd; cynorthwywyr gofal nos; a chynorthwywyr domestig. Bydd y mwyafrif o'r swyddi hyn yn ne'r sir a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio yn y gymuned, yn cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain. Roedd swyddi gwag hefyd yn ein cartrefi gofal preswyl, Cysgod y Gaer, Corwen a Dolwen, Dinbych, ar gyfer oriau contract a llanw.

Bydd y recriwtio yma'n dod â budd uniongyrchol i bobl â nodweddion a ddiogelir sef **Oedran, Anabledd, Rhyw, Priodas a Phartneriaethau Sifil** (yn benodol i gefnogi gofalwyr di-dâl sy'n gofalu am aelodau'r teulu, priod, partner ac ati), a'r rhai **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae'r gwaith yma, sy'n cael ei gyfuno mewn partneriaeth gyda'n hadran tai, yn dangos **integreiddio** da ar gyfer recriwtio, **cydweithio** a meddwl **yn yr hirdymor**. Gallai sicrhau cyfleoedd gwaith fod o fudd i'r rhai **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Cyfamod y Lluoedd Arfog Sir Ddinbych

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ei gydnabod am gefnogi cymuned y lluoedd arfog. Mae'r Cyngor yn un o 24 sefydliad a chyflogwr sector preifat yng Nghymru i gael Gwobr Arian Cynllun Cydnabyddiaeth Cyflogwr (CCC) Amddiffyn yn 2021 gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r CCC yn annog cyflogwyr i gefnogi amddiffyn ac yn agored i sefydliadau cyflogwyr sy'n addo, dangos neu eirioli cefnogaeth i amddiffyn cymuned y lluoedd arfog, ac alinio eu gwerthoedd gyda Chyfamod y Lluoedd Arfog.

Arwyddodd Cyngor Sir Ddinbych Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2019. Bydd cyflwyniad swyddogol y wobr yn digwydd yn Seremoni y Lluoedd Arfog yng Nghymru a Gwobrau Arian CCC yng Nghaerdydd ar 25 Tachwedd, 2021.

Dyfarwyd grant i Sir Ddinbych yn Gweithio yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog i gyflogi Mentor Cyflogaeth ar gyfer y rhaglen '*Force for Change*'. Fe fydd yr arian yn helpu i gefnogi unigolion sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac sydd mewn tlodi neu sydd mewn perygl o fod mewn tlodi ac sydd angen arweiniad a chefnogaeth i gael cyflogaeth. Mae'r cynllun mentora eisoes wedi cefnogi nifer o gyn-filwyr oedd â bylchau mewn cyflogaeth ac addysg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [dudalen we Sir Ddinbych yn Gweithio](#).

Bydd y Cyfamod a'n gwaith yn Sir Ddinbych o fudd uniongyrchol i bobl â nodweddion a ddiogelir sef **Oedran, Anabledd, Priodas a Phartneriaeth Sifil** a'r rhai **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae'r gwaith yma'n dangos **cydweithio**, meddwl **yn yr hirdymor** ac **integreiddio** delfrydau i gefnogi ac amddiffyn cyn-filwyr. Mae hefyd yn ceisio **cynnwys** budd-ddeiliad â diddordeb ac **atal** teimladau o unigrwydd ac unigedd.

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae ein fframwaith llinynnau mesur ar gyfer y flaenoriaeth yma yn ymwneud yn llwyr â data blynyddol. Mae'r mesurau yma'n deillio o'n Harolwg Preswylwyr a fydd yn cael ei gynnal yn hydref 2021; ond nid yw dau fesur pellach sy'n cael sylw yn y tabl isod, yn barod i adrodd amdanynt eto.

Ar ôl dadansoddi'r data sylfaenol a gyflwynwyd yn yr adroddiad diwethaf, mae'r trothwy perfformiad wedi cael ei bennu ar gyfer ein mesurau newydd mewn cysylltiad â Rhaglen Carbon ac Ecolegol Gadarnhaol y Cyngor hyd at ddiwedd y strategaeth yn 2030. Mae perfformiad yn cael ei ystyried yn Rhagorol ar gyfer milltiroedd busnes a Da ar gyfer milltiroedd cymudo, Da ar gyfer carbon sy'n cael ei ryddhau drwy ein cadwyni cyflenwi, ac yn Dderbyniol ar gyfer tir yn y categorïau uchaf sy'n gyfoethog eu rhywogaethau. Serch hynny, mae'n rhaid i berfformiad yn y mesurau hyn fod â rhybudd gyda chydabyddiaeth o effaith yr amgylchiadau eithriadol y cafodd perfformiad ei recordio o dan gyfyngiadau Covid-19. Mae'n debygol y byddwn yn gweld cynnydd yn ein hallbwn carbon yn ystod 2021 i 2022.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Bydd hyder o ran cyflawni ar gyfer ein Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn cael ei adrodd mewn dwy ffordd yn y dyfodol, edrych ar hyder o ran cyflawni yn ystod y flwyddyn; a hyder o ran cyflawni ar ddiwedd ein strategaeth yn 2030, ar sail ein perfformiad hyd yma. Ar hyn o bryd, mae hyder o ran cyflawni yn cael ei adrodd fel profi rhwystrau. Mae symud prosiectau o gam cysyniad/datblygu i gam cyflawni wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl oherwydd capasiti staff, gan olygu bod y Grŵp Buddsoddi Strategol

wedi cymeradwyo prosiectau cyfalaf 2021 i 2022 i'w diogelu yn hwyrach na'r disgwyl. Mae hyn wedi cywasgu amser cyflawni a bydd yn achosi risg ychwanegol i brosiectau, yn benodol yn ffrydiau gwaith Adeiladau a Dal a Storio Carbon. Wedi dweud hynny, mae disgwyl y bydd yna ddigon o amser cyn mis Mawrth 2020 i gwblhau mwyafrif y gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu.

Mae hyder o ran cyflawni erbyn 2030 fel yr adroddir wedi'i beryglu, yn bennaf oherwydd y gallu i gyflawni targed dal a storio carbon. Mae opsiynau o ran ceisio gwneud mwy ar ochr gostwng allyriadau carbon yn ffurfio rhan o bapur yn ymwneud â pherfformiad 2020 i 2021 a fydd yn cael ei drafod nesaf yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Rhaglenni Gweithredol.

Mae uchafbwyntiau ers yr adroddiad diwethaf yn cynnwys lansio tudalennau newid hinsawdd a newid ecolegol newydd ar y fewnwyd i helpu staff ddeall beth mae argyfwng hinsawdd yn ei olygu iddyn nhw; cyflwyno modiwl e-ddysgu Newid Hinsawdd newydd; a chyhoeddi ein e-newyddlen i gynghorwyr a'r rhai sydd wedi cofrestru ar ein rhestr bostio gwyrdd.

Ar y trywydd iawn: Plannu Coed

Mae'r Prosiect yn cadw at ei dargedu ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno ei hawl blynyddol ac adroddiad i Gyfoeth Naturiol Cymru, sydd yn gweinyddu Cynllun PLANT. Ni fydd statws y prosiect yn newid tan gychwyn y tymor plannu nesaf yn hydref 2021.

Ar y trywydd iawn: Gwaith Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl

Mae gwaith adeiladu amddiffynfeydd llifogydd Dwyrain y Rhyl yn cadw at y targed. Mae gwaith wal gynnal y graig ar y draethlin wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith ar y promenâd yn mynd fel y disgwyl. Mae gwariant ariannol yn unol â'r targed gyda 70.76% o gostau terfynol tybiedig bellach wedi'i wario. Amcangyfrif o gost derfynol ar gyfer y prosiect adeiladu yw £20.3m, a £27.5m yw cyfanswm y gyllideb sydd ar gael. Dyddiad cwblhau ar gyfer y prosiect cyfan yw mis Mehefin 2022.

Mae'r Cyngor bellach yn gwahodd preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i ddweud eu dweud ar y cynigion newydd am gyllid i wella amddiffynfeydd arfordirol yng nghanol y Rhyl, rhwng Parc Drift a Splash Point. Mae opsiynau'n cynnwys gosod deunyddiau i atal erydu a gwaith atgyweirio concriid i wal y môr sydd yno eisoes, wal gynnal concriid i amsugno egni o'r tonau a darparu mynediad i'r traeth, wal newydd i amddiffyn rhag llifogydd a chodi

uchder y promenâd a lledu'r promenâd tu ôl i faes parcio canol y Rhyl. Bydd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 21 Gorffennaf ac 11 Awst. Mae rhagor o fanylion a holiadur am y cynigion ar gael trwy ein [Porth Sgwrs y Sir](#).

Yn profi rhwystrau: Gwella Bioamrywiaeth

Mae nifer o weithgareddau ein prosiectau bioamrywiaeth ar stop oherwydd y pandemig, yn cynnwys arolygon grŵp. Mae arolygwyr sydd yn gallu cael aelodau o'u 'swigen' i fynd allan yn gallu parhau i gynnal eu harolygon o rywogaethau, megis gwiberod a madfall y tywod a phathewod. Mae arolygu'n digwydd gan staff ar eu pen eu hunain hefyd. Mae Rhaglen Monitro Gwiberod Gogledd Ddwyrain Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn lleoli poblogaeth o wiberod wrth ochr y ffordd ger Llandegla, ynghyd â dau safle arall sydd heb eu harolygu ers 2017. Bydd diwrnodau hyfforddiant llyffant cefnfelyn a madfall y tywod yn gymysgedd o sesiynau hyfforddi dros y we a hyfforddiant ymarferol ar y safle os bydd cyfyngiadau'r pandemig yn caniatáu hynny. Mae darlithwyr gwadd wedi dod i ben am y tro ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Mae'r Prosiect Blodau Gwylt yn parhau mewn i 2021 gyda safleoedd ychwanegol yn cael eu hychwanegu i'r Prosiect Peilot Bioamrywiaeth Ymyl Ffordd, sy'n golygu mai 58 yw'r cyfanswm newydd. Mae'n bosibl ein bod wedi darganfod rhywogaeth brin genedlaethol yn tyfu yn un o'n safleoedd Cyfeillgar i Wenyn; yn ogystal â rhywogaethau sydd yn lleihau yn un o'n safleoedd ym Mhrestatyn, o'r enw Tafod y Bytheiad (*Cynoglossum officinale*) a dim ond 18 gwaith y mae wedi cael ei gofnodi yn Sir Ddinbych yn y 116 mlynedd diwethaf. Mae mapiau cynefin ar gyfer glaswelltir, dŵr croyw a choetiroedd wedi cael eu llunio ar gyfer gwefan Bionet a bydd yn dangos prosiectau cadwraeth Sir Ddinbych yn y cynefinoedd yma. Mae cyfarfodydd i ymestyn tir ar gyfer y Prosiect Blodau Gwylt wedi cael eu cynnal gyda Scottish Power a Grŵp Tyfwyr Graigfechan. Mae 12 erw o dir ychwanegol wedi cael ei gyflwyno gan breswlydd lleol i gael ei gynnwys yn y prosiect Cyfeillgar i Wenyn. Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol gyda gwasanaethau gwastraff am wair sydd wedi'i dorri o ymyl ffordd. Bydd gwair rŵan yn mynd i'r ffrwd compostio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gydlynu'r gwaith o drosglwyddo'r gwair i safleoedd trosglwyddo gwastraff dynodedig.

Ar y trywydd iawn: Coridor Byd Natur

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi gallu ailgydio mewn rhywfaint o waith ymgysylltu â'r gymuned, yn cynnwys ein sesiynau gwirfoddoli ymarferol rheolaidd mewn sawl safle, a sesiwn wythnosol newydd yn rhandir Ffordd Cilgant, gan ymgysylltu gyda'r gymuned ac ennill momentwm yno. Mae teithiau cerdded iechyd wedi ailgychwyn, ac mae gwaith wedi dechrau gyda grŵp dementia newydd i helpu i drefnu teithiau cerdded a sesiynau celf yn yr awyr agored. Mae sawl digwyddiad a gweithdai ysgol wedi cael eu cynllunio ar gyfer y misoedd sydd i ddod. Rhoddwyd cefnogaeth i Glwb Pysgota'r Rhyl a'r clwb pysgota cymunedol newydd i blant a phobl ifanc ar Ffos y Rhyl, yn cynnwys helpu i gynnal a chadw'r safle.

Mae gwaith cynefinoedd wedi parhau, megis pori ger y caban newydd ar Wlyptir Prestatyn ac atgyweirio ffens Trwyn Horton. Mae'r cynllun môr-wenoliaid bach bron â chael ei gwblhau a bydd yn cael ei ddatgymalu'n fuan wrth i'r nythfa fudo. Bydd sylw rŵan yn troi i gynnal gweithgareddau'r haf a chynllunio ar gyfer yr hydref.

Ar y trywydd iawn: Rheoli Rhostir

Mae llosgi dan reolaeth wedi cael ei gynnal yn ystod y cyfnod yma gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Staff Cefn Gwlad. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi gohebiaeth ar y cyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy gyfryngau cymdeithasol a'r wasg am risgiau tanau gwyllt a rheoli tir yn gyfrifol. Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant ar reoli grug ac eithin mewn tri lleoliad ar Fynydd Llantysilio er mwyn lleihau llwyth tanwydd a risg tanau gwyllt, yn cynnwys cwblhau Cam 1 o'r llwybr adferiad.

Gweithiodd y Cyngor yn agos gyda'r gwasanaeth tân a chymuned ffermio lleol yn dilyn tân diweddar ar Fynydd Llantysilio, gydag ôl-drafodaeth weithredol am y digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Mehefin. Rydym ni hefyd yn rhwydweithio gyda Fforwm Tanau Gwyllt Cymru a Lloegr a Pharc Cenedlaethol y Peak District, ac yn gweithio gyda Fforwm Gogledd Cymru Gydnerth ar Gynllun Tanau Gwyllt Rhanbarthol Gogledd Cymru. Rydym wedi trafod gyda phorwr a pherchennog tir ar Fryniau Clwyd ynglŷn â mynd ati'n rhagweithiol i reoli grug a llwythi tanwydd posibl.

Ar y trywydd iawn: Asedau Byw

Cynhaliwyd cyfarfodydd dros y we gydag adrannau Tai ac Addysg i gyflwyno testun rheoli coed a'n dyletswydd gofal. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth am 'Asedau Byw' yn tyfu yn y Cyngor wrth i fwy o gydweithwyr ofyn am gyngor ar faterion sy'n gysylltiedig â choed. Rhoddwyd cefnogaeth i gydweithwyr sy'n gweithio ar brosiect Llangollen 2020, er enghraifft, i archwilio coed aeddfed ar Heol y Castell, Llangollen. Bydd rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal gyda chydweithwyr am ddull cyfannol a strategol i reoli coed. Byddwn yn ymweld ag ystadau tai cyngor i edrych ar opsiynau i blannu coed, a fydd yn helpu i ddylanwadu ar Strategaeth Coed a Choetir newydd y Cyngor.

Yn wynebu risg: Tai Cyngor sy'n Defnyddio Ynni'n Effeithlon

Mae hyder o ran cyflawni yn parhau'n risg oherwydd Covid-19, ond serch hynny rydym wedi gweld nifer o welliannau i eiddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig darparu pypiau gwres ffynhonnell aer. Rydym ni bellach yn gobeithio gosod 150 arall yn ystod 2022 i 2023, a fydd yn uwchraddiad i fwyafrif y stoc dai. Yn y cyfamser, mae cynnydd yn parhau gyda'n gwaith cyfalaf 2021 i 2022, sydd yn bennaf yn ymwneud â gwelliannau allanol, yn cynnwys mesurau insiwleiddiad a gwaith gosod gwres byr tymor sydd yn haws i'w cyflenwi i'r farchnad dai yn y cyfnod sydd ohoni. Rydym ni hefyd yn dymuno ailgychwyn ein harolygon Tystysgrif Perfformiad Ynni cyn gynted ag mae'r cyfyngiadau yn caniatáu hynny.

Rydym ni dal i aros am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru o ran Safon Ansawdd Tai Cymru newydd. Rydym ni'n credu y bydd y polisi newydd yn effeithio'n fawr ar dargedau allyriadau carbon ar lefel genedlaethol ac yn dylanwadu ar raglenni gwaith yn y dyfodol, yn ogystal â phenderfyniadau rheoli ased allweddol ar gyfer ein stoc dai.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyru oherwydd staff yn teithio i'r gwaith - wedi'i feincnodi'n lleol	1,848	1,719	Da
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyru oherwydd teithiau busnes - wedi'i feincnodi'n lleol	550	126	Rhagorol

Llinyn Mesur	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyru oherwydd cadwyni cyflenwi - wedi'i feincnodi'n lleol	22,710	22,206	Da
Y ganran o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau - wedi'i feincnodi'n lleol	37.5	38.1	Derbyniol
STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - wedi'i feincnodi'n lleol	552.35	Aros am ddata	Rhagorol
Canran y stoc o dai cyngor presennol a rhai a gafaelir (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) yn cael sgôr EPC (Ynni) C neu well - wedi'i feincnodi'n lleol	40	46	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y coed a blannwyd yn flynyddol i gynyddu'r gorchudd o goed yn y Rhyl a Dinbych - wedi'i feincnodi'n lleol	4300	4400	Rhagorol

Ni ddisgwylir y data 2020 i 2021 ar gyfer y tri llinyn mesur canlynol nes cynhelir yr Arolwg Preswylwyr yn hydref 2021.

Llinyn Mesur	2018 i 2019	Statws
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? – Cefn Gwlad – wedi'i feincnodi'n lleol	87	Rhagorol
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? – Traethau – wedi'i feincnodi'n lleol	70	Da
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? – Parciau – wedi'i feincnodi'n lleol	64	Da

Ni fyddwn yn adrodd ynghylch ein llinyn mesur ar gyfer nifer yr eiddo mewn llai o berygl o lifogydd (1,000) hyd oni chwblheir y cynlluniau a nodwyd i atal llifogydd, a ddechreuodd yn 2020.

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

Ni fyddwn yn adrodd ynghylch y ganran o dai cyngor newydd sy'n cael sgôr EPC (Ynni) A hyd oni chwblheir y gwaith adeiladu yn 2021.

Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gwarchodfa Natur Newydd

Mae'r Cyngor a thîm Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE) wedi cydweithio gydag arian gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Datblygiad Gwledig Ewropeaidd, i greu gwarchodfa natur newydd ar hen safle tirlenwi yn Wenffrwd – ar gyrion Llangollen. Bellach, gall ymwelwyr ddefnyddio maes parcio bychan yn y warchodfa natur a chrwydro o amgylch y safle newydd gan ddilyn 0.5 milltir o lwybr ag arwyneb newydd sydd yn ymdroelli drwy amrywiaeth o gynefinoedd sydd yn cynnig golygfeydd o afon Dyfrdwy ac ar draws y dyffryn.

Dyma brosiect **cydweithredol** a fydd â buddion **hirdymor** i les preswylwyr ac ymwelwyr, gan **integreiddio** amcanion y partneriaid sy'n cymryd rhan. Bydd y warchodfa yn cadw ac yn amddiffyn cynefinoedd pwysig, gan **atal** unrhyw niwed iddynt. Bydd gwelliannau i fynedfa'r safle o fudd i bobl â nodweddion a ddiogelir sef **Anabledd** ac **Oedran**. Gwahoddir gwirfoddolwyr i **gymryd rhan** gyda gwelliannau ar y safle yn y dyfodol, yn cynnwys plannu coed, ardaloedd newydd o flodau gwyllt, ac arolygon o fywyd gwyllt. Cysylltwch â clwydianrangeaonb@denbighshire.gov.uk i gael rhagor o fanylion.

Teithio Llesol

Lansiwyd ail gam ymgynghoriad teithio llesol ar welliannau i lwybrau cerdded a beicio yn y sir ym mis Mai, gan weithio mewn partneriaeth gyda Sustrans Cymru. Ymatebodd 375 o bobl i'r cam cyntaf, a chafwyd 456 o sylwadau. Defnyddiwyd yr adborth yma i lunio cynlluniau drafft ar gyfer y Rhyl, Prestatyn, Gallt Melyd, Dyserth, Rhuddlan, Bodelwyddan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar 11 tref yn Sir Ddinbych, wedi'u dewis gan Lywodraeth Cymru fel ardaloedd dynodedig y sir. Mae'r cynlluniau drafft yn dangos y llwybrau sydd eisoes yn cyrraedd y safonau teithio

llesol, llwybrau sydd angen eu gwella er mwyn iddyn nhw gyrraedd y safon a llwybrau newydd yr hoffem ni eu creu yn ystod y pymtheg mlynedd nesaf.

Mae rhagor o waith wedi digwydd ar gynllun teithio llesol dros dro yn Llangollen i wella gwelededd cyrbau a bolardiau rwber dros dro a gyflwynwyd i hwyluso cadw pellter cymdeithasol a'i gwneud yn haws i bobl deithio yng nghanol y dref, gwella ansawdd aer a helpu i ddarparu llwybrau diogel i gerddwyr a beicwyr. Fe fydd planwyr yn cael eu cyflwyno a fydd yn fwy deniadol yn hytrach na'r cyrbau a bolardiau rwber. Byddwn yn parhau i gasglu barn y cyhoedd trwy gydol y cynllun.

Mae **cynnwys** budd-ddeiliaid wrth ddatblygu llwybrau teithio llesol yn allweddol i'w gynaliadwyedd **hirdymor** a bodloni anghenion lles ein preswylwyr. Gobeithio y bydd cydweithio â Sustrans a Llywodraeth Cymru yn arwain at **integreiddio** effeithiol o amcanion cenedlaethol a lleol, gan wneud y mwyaf o fanteision y prosiect i'n cymunedau, gan **atal** amhariad a bod o fudd i iechyd. Mae'r prosiect o fudd i'r rhai sydd â'r nodweddion a ddiogelir sef **Anabledd** ac **Oedran**, gan wella mynediad o amgylch aneddiadau allweddol.

Awyr tywyll y nos

Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei lansio ar gyfer Cynllunio ar gyfer Awyr Dywyll yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Un o nodweddion arbennig cydnabyddedig yr AHNE yw ei natur heddychlon, sy'n cynnwys y cyfle i brofi awyr dywyll. Mae gan yr AHNE rai o'r awyr mwyaf tywyll yng Nghymru ac mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft yn ceisio cadw a gwella'r nodwedd arbennig hwn drwy ddarparu canllawiau ar gyfer datblygwyr ac eraill ar ddyluniadau golau sy'n gyfeillgar i awyr dywyll. Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 5.00pm ar 9 Awst 2021, ac mae modd ymateb drwy [Borth Sgwrs y Sir](#).

Mae'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth gyda'n hawdurdodau cynllunio cyfagos, mae'r prosiect yma'n dangos **integreiddio** amcanion yn dda, **cydweithio**, a meddwl yn y **tymor hir**. Mae'n ceisio **cynnwys** pob budd-ddeiliad â diddordeb ac **atal** dirywiad o'n hamgylchedd unigryw yn y dyfodol.

Cefnogi Twristiaeth

Mae cyfres o adnoddau marchnata sy'n gysylltiedig â thwristiaeth i fusnesau eu defnyddio wedi eu lansio fel rhan o Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych, er mwyn annog ethos teithio diogel a chyfrifol. Mae hyn yn cynnwys annog ymwelwyr i gynllunio, paratoi ac archebu ymlaen llaw i sicrhau profiad cadarnhaol, cyngor ar ddiogelwch arfordirol a negeseuon diogelwch awyr agored i sicrhau fod gan bobl y sgiliau, gwybodaeth ac offer cywir cyn mentro allan. Mae'r Cod Cefn Gwlad newydd hefyd yn cael ei amlygu i annog ymwelwyr a phreswylwyr i amddiffyn yr amgylchedd drwy fynd â sbwriel gartref, cadw cŵn dan reolaeth, dilyn arwyddion a chadw at lwybrau wedi eu marcio, cau giatiau a pharcio'n gyfrifol. Mae cyfres o ddelweddau cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â'r prif negeseuon wedi'u cynhyrchu i fusnesau a Llysgenhadon Twristiaeth yn ogystal â chronfa lluniau proffesiynol i hybu'r ardal.

Mae Sir Ddinbych hefyd yn annog pawb i ddysgu a gwerthfawrogi mwy am yr ardal drwy fod yn Llysgennad Twristiaeth Sir Ddinbych. Mae cyfres o fodiwlau rhyngweithiol am ddim ar-lein gyda chwisiau wedi cael eu llunio ar themâu amrywiol. Mae yna dros 275 o Lysgenhadon ar hyn o bryd ac mae'r cynllun a ddechreuodd yn Sir Ddinbych, nawr yn ymestyn i ardaloedd eraill ar draws Cymru. Mae dwy Ganolfan Groeso gyda staff Sir Ddinbych nawr yn agored i gynorthwyo ymwelwyr gyda llety, gweithgareddau, bwyta allan a theithio o amgylch y sir. Mae Llangollen yn agored ddydd Mercher, dydd Gwener a dydd Sadwrn 9:30am – 5:00pm a Chanolfan Groeso y Rhyl yn agored ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau, 9.30am – 4:00pm.

Bydd gweithio'n **rhagweithiol** fel hyn gyda phartneriaid a busnesau, a **chynnwys** preswylwyr ac ymwelwyr drwy rannu gwybodaeth a chynghor yn helpu i **integreiddio** ein dyheadau am amgylchedd diogel, sy'n cael ei ddiogelu er mwyn i ni fwynhau ac elwa ohono. Yn fwy na dim, bydd yn **atal** niwed i'n treftadaeth ac amgylchedd cyfoethog, gan barchu a gwarchod yr asedau pwysig yma ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac i fod o fudd i les pawb.

Gwrthbwyso Carbon

Mae Adventure Tours UK o Ruthun wedi ymuno ag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar brosiect i wrthbwyso carbon, gan ymrwymo i blannu un goeden am bob person sy'n teithio ar un o'i anturiaethau i grŵp bach neu wyliau

gweithgareddau arbennig. Mae bron i ddwy acer o dir o fewn Parc Gwledig Moel Famau wedi ei ddynodi ar gyfer y prosiect coetir brodorol newydd dros y tair blynedd nesaf. Disgwylir i'r goedlan newydd yn Nhyn-y-Pistyll greu cynefin pwysig ar gyfer nifer o rywogaethau bywyd gwylt brodorol.

Mae prosiectau **cydweithredol** fel hyn yn galluogi i ni **integreiddio** ein dyheadau am amgylchedd naturiol amrywiol tra'n manteisio ar ein hadnoddau. Bydd hefyd yn gwneud i ymwelwyr deimlo eu bod yn **rhan** o'n gwaith pwysig i ddiogelu a gwella cefn gwlad ar gyfer yr **hirdymor**, ac **atal** unrhyw niwed i rywogaethau cynhenid.

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad blaenorol, mae diwygiadau cwricwlwm Llywodraeth Cymru ac effaith Pandemig Covid-19 yn golygu mai ychydig iawn o fesurau sydd gennym i allu adrodd yn eu herbyn ar gyfer y flaenoriaeth hon. Yn ystod misoedd olaf tymor yr haf, parhaodd presenoldeb i gael ei effeithio'n andwyol wrth i gohortau dosbarth orfod hunanynysu neu bu'n rhaid i ysgolion gau; ac wrth gwrs nid oes modd cymharu data cyrhaeddiad bellach, mae'n seiliedig ar asesiadau athrawon ac nid canlyniadau arholiadau. Mae hyn yn her wirioneddol i'r Cyngor allu deall sut mae ein hysgolion yn perfformio, ond byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid gwella ysgolion o GwE er mwyn sicrhau bod y canlyniadau gorau bosibl yn cael eu cyflawni gan ein disgyblion. Cymerwyd adroddiad ar y cyd gan GwE a'r Pennaeth Addysg Dros Dro i gyfarfod [Craffu Perfformiad ym mis Mehefin](#) ynglŷn â sut mae'n consortiwm rhanbarthol a'r Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i weithredu Cwricwlwm newydd Cymru.

Dim ond un llinyn mesur sydd â data newydd yn yr adroddiad yma, sy'n gysylltiedig â hawlwr 18 i 24. Y peth cyntaf i'w nodi yw bod data a gyflwynwyd yn flaenorol wedi cael ei ddiwygio tuag i lawr gan Swyddfa Ystadegau Gwladol ([gweler y tabl isod](#)), ond mae'n safle yn parhau ymysg y gwaethaf yng Nghymru, 19eg allan o 22 ym mis Mehefin 2021. Yn unol â thueddiadau cenedlaethol fodd bynnag, mae ffigurau chwarter 1 yn dangos fod nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn Sir Ddinbych wedi disgyn o 12.4% i 10%. Rydym ni'n parhau o dan gyfartaledd Cymru, sydd bellach yn 7%. Cyn y pandemig, roedd Sir Ddinbych 2% y tu ôl i gyfartaledd Cymru. Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn y DU hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru, sydd bellach yn 7.5%.

Mae'r unig eitem arall o bwys yn ymwneud â'n llinyn mesur Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol, o ran teimladau am ysgol. Daeth ein contract Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol i ben yn ddiweddar, ond mae bellach wedi cael ei ail-drafod gyda'r un

darparwr. Serch hynny, dim ond yn flynyddol y byddwn ni'n adrodd y llinell mesur hon yn y dyfodol o ganlyniad i'r contract newydd, nid bob chwe mis fel y buom yn ei wneud yn ystod y cyfnod gweithredu/monitro cychwynol ar gyfer yr arolwg.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Moderneiddio Addysg

Mae gwaith dichonoldeb a dylunio ar gyfer Band B wedi cychwyn. Mae pob prosiect bellach yn cael ei ddatblygu ar sail unigol a bydd angen llunio a chyflwyno Achosion Busnes ar wahân drwy'r Grŵp Buddsoddi Strategol/Cabinet i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg yn parhau i ddarparu trosolwg o ddatblygiad y Rhaglen. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd gyda'r rhaglen.

Mae gwaith yn parhau er mwyn gallu cychwyn caffael yn hydref 2021 am gontractwr arweiniol i ddatblygu cynigion ar gyfer adeilad ysgol newydd yn Ysgol Plas Brondyffryn. Mae dylunio ac adeiladu wedi cael eu comisiynu i edrych ar opsiynau ar gyfer Ysgol Pendref yn Ninbych ac Ysgol Bryn Collen/ Ysgol Gwernant yn Llangollen. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynol ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Dinbych hefyd.

Yn profi rhwystrau: Lleoliadau Gofal Plant

Bu oedi gyda'r gwaith o ymestyn Canolfan y Dderwen yn sgil anhawster yn penodi contractwr, er mae un wedi'i benodi erbyn hyn. Mae gwaith wedi'i gynllunio i ddechrau ar y safle ym mis Medi, a rhagwelir mai'r dyddiad cwblhau ar gyfer y prosiect fydd haf 2022.

O ran cyfleuster gofal plant Ysgol Twm o'r Nant, bu rhywfaint o oedi yn derbyn gwybodaeth gan beirianwyr strwythurol a mecanyddol (y tu allan i'r Cyngor) i lywio'r ddogfennaeth dendro. Y gobaith yw y bydd y tendr yn cael ei gyflwyno ddiwedd mis Mehefin 2021, a bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yn yr hydref.

Ar y trywydd iawn: Canolfan Iaith Gymraeg

Mae'r ganolfan bellach ar agor i fusnes, ac mae'r pedair ystafell yn cael eu defnyddio yn ystod tymor yr haf gan Gylch Meithrin Llanelwy, Ysgol Glan Clwyd, Mudiad Meithrin a

Phrifysgol Bangor. Disgwylir y bydd y defnydd yn cynyddu ym mis Medi gyda darpariaeth hwyr ddyfodiaid.

Ar y trywydd iawn: Prosiect Maetheg Ysgolion

Cafwyd rhwystr i'r prosiect ym mis Mai pan adawodd ein Cydlynnydd Maeth Ysgolion serch hynny, llwyddodd y Grŵp Prosiect i benodi i'r rôl yn ei flwyddyn olaf, i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig o recriwtio ysgolion a darparu dosbarthiadau mewn partneriaeth gyda chydweithwyr ieuchyd. Mae gwerthusiad o'r prosiect hyd yn hyn wedi cael ei lunio a'i rannu gyda'r Grŵp Prosiect.

Wedi dod i ben: Cefnogaeth i Rien

Mae'r prosiect hwn bellach wedi dod i ben yn dilyn cytundeb gan y Bwrdd Rhaglen. Mae elfen y prosiect oedd yn cael ei ariannu gan y Cynllun Corfforaethol, creu capasiti staff i weithredu Rhaglen Rianta Solihull bellach wedi'i gwblhau. Mae meysydd eraill o waith yn cael eu hystyried yn fusnes craidd parhaus.

Yn wynebu risg: Bwrsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc

Mae'r Cyngor wedi ehangu meini prawf ymgeisio i'r Fwrsariaeth er mwyn cefnogi mwy o bobl a busnesau yn y sir yn ystod y cyfnod adferiad. Mae'r nifer sy'n manteisio arno'n parhau'n isel fodd bynnag. I fod yn gymwys, mae'n rhaid byw yn Sir Ddinbych, ac yn ennill o dan gyflog canolrif y sir o (£28,199), yn gweithio ar hyn o bryd (lleiafswm o 16 awr) a gallu dangos argaeledd swyddi addas gyda chwmni wedi'i leoli yn Sir Ddinbych. Gellir dyfarnu cyllid rhwng £250 a £2,000 yr un ar gyfer hyfforddiant, datblygiad neu i gael gafael ar fentora i alluogi unigolion symud ymlaen yn eu gweithle presennol neu gyda chyflogwr newydd. Hyd yn hyn, mae cyflog y rhai sydd wedi derbyn y grant wedi cynyddu 24% ar gyfartaledd fesul blwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [ein gwefan](#).

Ar y trywydd iawn: Adnodd Arolwg Agwedd Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol

Rydym wedi cyrraedd diwedd y cyfnod peilot o bedair blynedd o Arolwg Agwedd Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol, ac yn y cyfnod yma rydym wedi ail-dendro contract newydd a'r gobaith yw parhau i gefnogi ysgolion gyda'r adnodd pwysig yma. Mae dyfarniad terfynol y contract dal i gael ei ystyried yn llawn.

Ar y trywydd iawn: Dechrau Gweithio

Bu cynnydd dramatig mewn galw ar draws y Cynllun Dechrau Gweithio ar ôl i fusnesau lleol ailagor. Mae'r gwasanaeth wedi dyrannu 60 o lefydd hyd yn hyn - 46 â thâl ac 19 yn ddi-dâl - gyda 15 yn rhagor ar y gweill. Cafodd targedau ar gyfer y rhaglen eu hadolygu'n ddiweddar gan y Bwrdd Rhaglen i ystyried cyfyngiadau gweithredol a'r gostyngiad mewn galw pan oedd y pandemig ar ei anterth. Mae'r ail-broffil ariannol, a dynnodd sylw at y tanwariant sylweddol yng nghost y dyrannu lleoliadau, wedi galluogi i ni gynyddu'r targed lleoliadau â thâl o 45 i 70 lleoliad. Yn dilyn gostyngiad cychwynnol, mae'r galw am y gwasanaeth yn cynyddu'n gyflym, ac er mwyn cefnogi'r cynllun ymhellach yn y 9 mis sy'n weddill, fe gytunwyd i recriwtio Cydlynnydd Cyflogaeth a Swyddog Gweinyddol ychwanegol i gefnogi anghenion busnes.

Yn profi rhwystrau: Sir Ddinbych yn Gweithio: Barod am Waith

Bu'n anodd symud ymlaen â'r gwaith yma o dan amodau Covid-19 ac rydym wedi gohirio ein digwyddiad gyrfaoedd o fis Mai i fis Gorffennaf. Serch hynny, mae cyfranogiad ysgolion yn parhau'n betrus o dan yr amgylchiadau yma. Fel arall mae platfform ar gyfer y digwyddiad wedi cael ei ddewis gan fodloni gofynion diogelu data a derbyn cymeradwyaeth gwasanaethau TGCh a'r Gyfraith.

Ar y trywydd iawn: Gwirfoddoli

Ar ôl mabwysiadu'r polisi gwirfoddoli newydd ar gyfer y Cyngor, fe ail lanswyd gwefan 'Siop Un Alwad' i gyd-fynd ag Wythnos Gwirfoddolwyr 2021 (1 - 7 Mehefin). Bydd cyfleoedd ychwanegol i wirfoddoli'n cael eu hychwanegu wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu codi. Yn ychwanegol i hyn, mae Cyfarfod Rhwydwaith Gwirfoddolwyr Mewnol wedi cyfarfod am y tro cyntaf eleni ac mae wrthi'n llunio Cylch Gorchwyl newydd ac yn dymuno recriwtio cynrychiolwyr lle mae yna fylchau ar draws gwasanaethau.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Canran presenoldeb disgyblion ysgolion cynradd - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	94.9	Dim data oherwyd	Rhagorol

Llinyn Mesur	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
		d Covid-19	
Canran presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	93.4	Dim data oherwyd d Covid-19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y plant 4-5 oed sydd â phwysau iach neu o dan eu pwysau (y sefyllfa flwyddyn yn ôl) - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	Aros am ddata	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella (yn seiliedig ar ddata 2018 - 67.7%)
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog yr Awdurdod Lleol - Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Cyfnod Allweddol 4 - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	33.8	Dim data oherwyd d Covid-19	Rhagorol
Canran y plant sydd yn cael 5 TGAU A*-C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd ysgol uwchradd, yn erbyn y ganran a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig ar ddiwedd ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	55	Dim data oherwyd d Covid-19	Derbyniol
Nifer yr ysgolion yn darparu addysg drwy gategoriâu addaswydd a chyflwr C a D - wedi'i feincnodi'n lleol	30	27	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Ni ddisgwylir y data 2020 i 2021 ar gyfer y tri llinyn mesur canlynol nes cynhelir yr Arolwg Preswylwyr yn hydref 2021.

Llinyn Mesur	2018 i 2019	Statws
Canran y preswylwyr sy'n fodlon fod yno gyfleoedd swyddi i bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaedd - wedi'i feincnodi'n lleol	19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinyn Mesur	2018 i 2019	Statws
Canran y preswylwyr sy'n fodlon fod yno gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau - wedi'i feincnodi'n lleol	28	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr sy'n fodlon fod yno gyfleoedd hamdden sy'n apelio at bobl ifanc - wedi'i feincnodi'n lleol	50	Derbyniol

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Statws
Canran y boblogaeth 18 i 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - wedi'i feincnodi'n genedlaethol	12.2 Wedi'i ddiwygio i lawr o 13.6	11.9 Wedi'i ddiwygio i lawr o 13.2	11.9 Wedi'i ddiwygio i lawr o 13.4	12.4 Wedi'i ddiwygio i lawr o 13.9	10	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y disgyblion (gan ddefnyddio Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol - PASS) sydd yn ymateb yn gadarnhaol ynglŷn â'u barn am yr ysgol - wedi'i feincnodi'n lleol	Dim data oherwyd Covid-19	Amherth nasol. Dwyflynyddol	87.2	Amherth nasol. Dwyflynyddol	Dim data Cytunwyd ar gontract newydd - i'w adrodd yn flynyddo l wrth symud ymlaen	Da

Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cyfrifoldeb bydeang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau

Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Her Ddarllen yr Haf

Mae plant ar draws Sir Ddinbych yn cael eu hannog i fod yn arwyr ac ymuno â Her Ddarllen yr Haf drwy eu llyfrgell leol. Thema eleni yw 'Arwyr y Byd Gwyllt', a fydd yn ysbrydoli plant i weithredu dros natur a'r amgylchedd wrth iddynt fwynhau darllen. Mae'r Asiantaeth Ddarllen a llyfrgelloedd wedi ymuno â WWF i greu antur gyffrous mewn tref ffuglennol o'r enw 'Caerwyllt'. Gall plant gymryd rhan yn eu llyfrgell leol neu ar-lein drwy'r plattform her ddigidol swyddogol: www.sialensddarllenyrfaf.org.uk.

Mae **cydweithio** gyda'r WWF yn ffordd wych o wella her ddarllen yr haf hwn, ond mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth am faterion pwysig **hirdymor** megis newid hinsawdd, **integreiddio** golau partneriaid, a chynyddu gwybodaeth am ein hamgylchedd i **atal** niwed rhag digwydd. Yn y pendraw, bydd ymgysylltu a **chynnwys** plant yn y dull creadigol yma o fudd i'w gallu darllen yn ystod cam pwysig o'u datblygiad, gan roi sgiliau pwysig iddynt ar gyfer eu dyfodol **hirdymor**.

Cefnogi'r economi

Mae Raisin UK, llwyfan cynilion ar-lein, wedi canmol y Cyngor am ei ymrwymiad parhaus i amddiffyn, cefnogi a darparu ffyniant economaidd ar draws y Sir. Roedd Sir Ddinbych yn y safle cyntaf ar gyfer economïau Cymru o ran busnes a disgwylir iddo gael adferiad sydyn ar ôl y pandemig. Mae gwaith parhaus y Cyngor i ddarparu cymorth i bob maes busnes i gynyddu cadernid yn yr economi leol a chefnogi cymunedau wedi ei gydnabod er gwaethaf anawsterau'r Pandemig.

Mae cynnal economi gref yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cyngor yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan sicrhau bod ein preswylwyr, yn enwedig y rhai **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**, yn cael eu hamddiffyn, a bod unrhyw niwed yn cael ei **atal**. Mae **cydweithio** gyda busnesau'r Sir yn galluogi i ni **integreiddio** ein dyheadau ar gyfer ffyniant **hirdymor** yn Sir Ddinbych.

Prydau Ysgol

Mae Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion Sir Ddinbych wedi profi cynnydd cyfartalog o 8% ar draws cyflenwyr bwyd, ac yn anffodus fe arweiniodd hyd at yr angen i godi cost prydau ysgol 20c o fis Medi. Dyma'r cynnydd cyntaf i gael ei gyflwyno gan y Cyngor mewn tair blynedd, a hyd yn oed ar ôl y cynnydd yma, bydd prisiau dal yn gymharol isel o'i gymharu ag ardaloedd awdurdod lleol eraill. Mae'r Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion newydd gael ei gydnabod fel un o'r chwe gwasanaeth sy'n perfformio orau yn y DU ar gyfer 2019 i 2020.

Mae darparu prydau fforddiadwy, maethlon yn bwysig ar gyfer datblygiad **hirdymor** ein pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd **o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i **gydweithio** gydag ysgolion a chyflenwyr i warantu gwasanaeth sydd yn cynrychioli gwerth da am arian, a gobeithio y bydd yn lliniaru neu'n **atal** unrhyw effaith andwyol rhag rhagor o gynnydd mewn costau. Mae'n Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion wedi cael ei ganmol am y modd y mae'n **cynnwys** disgyblion a rhieni wrth ddylunio bwydlenni a gwasanaethau, ac **integreiddio** gyda disgwyliadau Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu prydau maethlon.

Bwthyn y Ddôl

Mae'r Cyngor yn rhan o brosiect **cydweithredol** gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu llety a chanolfan asesu newydd ar gyfer plant diamddiffyn ym Mharc Eirias, Bae Colwyn. Bydd y ganolfan yn cynnig datrysiad **hirdymor** sydd yn **integreiddio** ac yn **cynnwys** dyheadau partneriaid a defnyddwyr i ddarparu gwasanaethau lleol sydd yn **atal** plant sydd ag anghenion cymhleth rhag cael eu hanfon cannoedd o filltiroedd i ffwrdd i gael gofal. Yn anffodus mae'r cwmni a enillodd y contract gwreiddiol wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ond mae partneriaeth bellach wedi'i chytuno i symleiddio'r broses dendro. Mae'r prosiect wedi'i ariannu'n llawn drwy Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru gyda gofyniad i wario'r arian erbyn Mawrth 2022 a bod y gwaith paratoi wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2021. Gynted ag y bydd gwerthusiad unrhyw dendrau newydd wedi'i gwblhau, bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am unrhyw effaith ar y costau a'r amserlenni. Bydd y prosiect yn fuddiol i bobl â'r nodweddion gwarchodedig **Oedran** ac **Anabledd**.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod [Craffu Perfformiad ym mis Mehefin](#) am gynnydd y Cyngor yn bodloni gofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sydd yn ceisio creu system unedig i gefnogi dysgwyr o 0 - 25 oed sydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, er mwyn darparu system addysg gwbl gynhwysol yng Nghymru. Mae yna ddarpariaethau o'r Ddeddf, sydd hefyd yn berthnasol i ysgolion, a fydd yn mynd yn fyw ym mis Medi 2021, ac a fydd yn effeithio ar ddarpariaeth, dogfennaeth, cynlluniau datblygu, systemau TGCh, cyllidebau a hyfforddiant. Mae'r Cyngor yn **cydweithio** gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth gan edrych ar y darpariaethau yma ac yn **integreiddio** cyfleoedd i fanteisio ar yr adnoddau ble bo hynny'n bosibl. Bydd y ddeddf yma o fudd i'r rhai sydd â nodweddion a ddiogelir sef **Oedran** ac **Anabledd**, a gobeithio y bydd yn gwella'r broses o gynllunio a chyflenwi darpariaeth i ddysgwyr drwy gynnwys mwy arnynt a rhoi eu hanghenion yn ganolbwynt i'r broses. Mae'r gwaith yma'n canolbwyntio ar anghenion **hirdymor** disgyblion a fydd yn **atal** unrhyw ddysgwyr rhag cael eu heithrio o wasanaethau buddiol a fydd yn helpu iddynt oresgyn rhwystrau i ddysgu, gan ganfod anghenion yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ar waith.

Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Llinynnau mesur: Derbyniol

Meysydd Llywodraethu: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Isod y mae diweddariad byr am unrhyw ddata newydd a gafwyd ar gyfer Mesuryddion Perfformiad a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol. Gweler y tablau isod ar gyfer y sefyllfa bresennol a pherfformiad blaenorol lle mae'r wybodaeth ar gael. Mae statws perfformiad wedi cael ei osod yn erbyn pob mesur ar sail penderfyniad lleol o berfformiad rhagorol ac adlewyrchu ein huchelgais ar gyfer y Cyngor.

Yn dilyn dadansoddiad o'r data sylfaenol a gyflwynwyd yn yr adroddiad diwethaf, mae trothwy perfformiad bellach wedi'i bennu ar gyfer ein mesur allweddol i fod yn awdurdod ddi-garbon erbyn 2030. Ar hyn o bryd, ystyrir bod perfformiad yn Dda; serch hynny, mae'n rhaid i hyn fod â chydabyddiaeth o effaith y cafodd yr amgylchiadau eithriadol tra'n recordio perfformiad o dan gyfyngiadau Covid-19. Mae'n debygol y byddwn yn gweld cynnydd yn ein hallbwn carbon yn ystod 2021 i 2022.

Gyda'r adroddiad hwn, mae 41% o'n mesurau Cynllun Corfforaethol yn feysydd i'w gwella, i lawr o 49% yn yr adroddiad diwethaf. Mae dau o'n prosiectau corfforaethol yn rhai 'dan fygythiad' ar hyn o bryd (Prosiect Archifau ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint; ac Adeiladau'r Frenhines), ac mae 96% yn cael eu diweddarau'n rheolaidd gan reolwyr prosiect. Nid ydym wedi derbyn argymhellion ffurfiol ar gyfer gwelliant gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru), ac ni fu adroddiadau Sicrwydd Isel gan Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod yma.

Ein llinyn mesur ar amrywiant y gyllideb (h.y. beth sydd gennym ac yn ei dderbyn yn erbyn yr hyn rydym yn ei wario) yw £708,000 hyd at fis Mehefin 2021. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn £7.135m.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (a gymerwyd fel cyfran o'r holl straeon newyddion am y Cyngor) wedi gostwng rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, lawr o 24 i

10%. Mae hyn yn cynrychioli 21 stori negyddol allan o gyfanswm o 210. Ein cyfartaledd ar gyfer 2020 i 2021 oedd 11%.

Mae canran y cwynion allanol a gefnogwyd neu a gefnogwyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi cynyddu ychydig o 57 i 62%, gan symud o safle derbyniol i un o Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Mae hyn yn cynrychioli 65 allan o 104 o gwynion. O gymharu, dim ond 49 o gwynion a gawsom am yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfradd a gefnogwyd hefyd yn uwch na'n cyfartaledd blynyddol ar gyfer 2020 i 2021 (60%).

Ym mis Mehefin 2021, roedd absenoldeb salwch yn 7.12 diwrnod, i fyny o 6.47 yn y cyfnod diwethaf. Nid oes gennym ddata i gymharu ar gyfer yr un cyfnod y llynedd oherwydd Covid-19.

Mae canran y staff a gafodd o leiaf 3 chyfarfod wyneb i wyneb yn y 12 mis diwethaf wedi disgyn o 45 i 44% yn y chwarter yma. Gan fod y mesur yma'n newydd i chwarter 4, nid oes gennym ddata i'w gymharu ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Deallir hefyd ei fod yn bolisi cymhleth i'w weithredu os nad yw staff wrth ddesg neu'n cael eu goruchwyllo o leoliadau gwahanol. Bydd Partner Busnes Adnoddau Dynol yn gweithio gyda thimau rheoli i ddeall perfformiad yn well a lle y gellir gwneud gwelliant.

Bu gostyngiad yng ngwariant y Cyngor gyda chyflenwyr lleol o 36 i 33% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Ein huchelgais yw bod 40% o'n holl wariant caffael yn cael ei wario gyda chyflenwyr lleol yn Sir Ddinbych. Mae yna amryw o resymau pam fod hyn yn is na'n dymuniad; mae rhai ohonynt y tu hwnt i'n rheolaeth. Er enghraifft, mae'n bosibl ein bod yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yn Sir Ddinbych nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau yma gan fod yr anfoneb yn cael ei thalu i swyddfa ranbarthol neu bencadlys y tu allan i'r sir.

Roedd 75% o gontractau (dros £25,000 ac o dan £1,000) yn cynnwys manteision cymunedol yn ystod chwarter 1 (9 allan o 12 caffael). Ni chynhaliwyd gweithgareddau caffael cydweithredol yn ystod mis Ebrill i fis Mehefin, ond ni chollwyd rhai chwaith. Serch hynny, roedd yna 13 caffael cydweithredol posibl ar y gorwel, a bydd y rhain yn datblygu dros y misoedd i ddod.

Mae ein llinyn mesur olaf yn ystyried ymdrechion y Cyngor i gefnogi preswylwyr mewn i waith drwy leoliadau rydym ni'n eu cynnig yn y Cyngor. Yn ystod mis Ebrill i fis Mehefin, fe

wnaethom ni gefnogi 64 o unigolion yn llwyddiannus. Mae hyn yn gynnydd mawr ar y duedd ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, gyda chymorth yn sgil codi cyfyngiadau Covid-19.

Hunanasesiad Iechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu

Y canlynol yw'n hunanasesiad yn erbyn y saith prif faes llywodraethu ac mae'n ceisio paentio darlun o pa mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym ni'n gwybod (cysylltu â thystiolaeth lle mae ar gael), a beth y gallwn ni ei wneud i wella.

Cynllunio Corfforaethol

Isod y mae rhai o'r camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu yma.

Penodi Prif Weithredwr Newydd

Yn dilyn ymddiswyddiad y cyn Brif Weithredwr ym mis Ebrill, gweithredodd y Cyngor yn dda gyda threfniadau dros dro ar waith am bedwar mis, gyda Chyfarwyddwyr Corfforaethol yn derbyn mwy o gyfrifoldeb yn eu swyddi. Yn dilyn cymeradwyaeth ar gyfer y broses recriwtio gan Gynghorwyr ym mis Mai, cynhaliwyd cyfweiliadau ym mis Gorffennaf phenodwyd Graham Boase yn Brif Weithredwr newydd y Cyngor, gan ddechrau ar 1 Awst 2021.

Cytuno a gweithredu dull Cyngor cyfan o ymdrin â Ffyrdd Newydd o Weithio

Mae tîm y prosiect yn parhau i gyfarfod yn fisol ac mae'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor. Mae'r tîm wedi ystyried steiliau gwahanol o weithio y gall y Cyngor eu mabwysiadu; hyfforddiant a chefnogaeth sydd ei angen ar gyfer newid sefydliadol; gweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill; a pholisïau newydd neu ddigwyddiadau y bydd angen eu llunio. Mae fersiwn ddrafft o Strategaeth Asedau wedi cael ei llunio, ac mae gwaith yn parhau ar "Swyddfa Enghreifftiol" newydd yn Ninbych. Mae fideo yn amlinellu'r hyn all staff ei ddisgwyl ar eu diwrnod cyntaf yn ôl yn y swyddfa hefyd yn cael ei ystyried.

Llunio Cynllun Corfforaethol newydd erbyn mis Hydref 2022.

Trwy gydol yr haf cynnar, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi bod yn cynnal rhan nesaf arolwg Sgwrs y Sir, tra'n cynnal grwpiau ffocws gyda phreswylwyr,

cynghorwyr a staff i gasglu adborth am flaenoriaethau at y dyfodol. Mae'r tîm hefyd yn gweithio i ddiweddarau Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych cyn y gweithdy gyda'r Cabinet a Thîm Arwain Strategol yn yr hydref. Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r ymarferion hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor newydd yn ystod haf 2022 er mwyn helpu i wneud penderfyniad terfynol ar amcanion erbyn mis Hydref.

Llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol dros dro ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Hydref 2022 wedi cael ei lunio a bydd yn cael ei drafod gydag Aelod Cabinet Arweiniol yn fuan. Bydd y ddogfen yn bodloni gofynion deddfwriaethol i lunio cynllun bob 4 blynedd, a dylanwadu ar ein Cynllun Corfforaethol newydd 2022 i 2027.

Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae gofynion hunanasesiad y ddeddfwriaeth newydd eisoes wedi'u sefydlu, mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol 'peilot' ym mis Gorffennaf. Bydd arolwg budd-ddeiliaid a fydd yn cael ei gynnal yn yr hydref yn bodloni gofynion hunanasesiad ymhellach ac yn dylanwadu ar ein hadroddiad nesaf yn 2022. Bydd trefniadau ar gyfer Asesiad Panel yn cael eu trafod gyda'r Cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Bydd trafodaethau am y trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cydbwyllgor Corfforedig newydd yn dechrau o fis Medi.

Cynllun ar gyfer trefniadau disodli cyllid UE

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro effaith Brexit, ac mae wedi bod yn gweithio drwy'r cyfnod yma i benodi Swyddog Monitro, Cydymffurfio a Gweinyddol i gefnogi trefniadau Cronfa Adfywio Cymunedol. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn trafod gofynion capasiti i reoli cronfeydd Ffyniant a Rennir a Chodi'r Gwastad.

Rhaglen Her Gwasanaeth wedi'i ail sefydlu ar gyfer haf 2021, gan roi ffocws penodol ar gyfeiriad strategol y gwasanaethau a'u hadferiad ar ôl Covid-19.

Cynhaliwyd Rhaglen Her Gwasanaeth gywasgedig trwy gydol mis Mehefin a Gorffennaf, ac fe welwyd pob gwasanaeth. Roedd yr amserlen a dogfennaeth fyrrach yn boblogaidd, gan hwyluso trafodaethau amserol am gyfeiriad gwasanaethau at y dyfodol. Gwahoddwyd rheoleiddwyr hefyd ac eto, rhoddwyd adborth cadarnhaol. Mae dogfen 'gwersi a

ddysgwyd' wedi cael ei llunio i ddylanwadu ar raglen y flwyddyn nesaf. Bydd pob cam gweithredu o'r Heriau'n cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2021 i 2022, ond mae'r camau canlynol yn benodol wedi cael eu tynnu allan i gefnogi'r Canlyniad Iechyd Corfforaethol yma a byddant yn cael eu hadrodd drwy'r adroddiad diweddarau perfformiad:

1. Cynigion datblygu i wella darpariaeth TGCh, diogelwch ffibr, parhad busnes, darpariaeth TGCh ysgolion, a Sir Ddinbych ddigidol.
2. Creu canolbwyntiau mewn ardaloedd ar draws Sir Ddinbych sydd â chysylltiad band eang gwael, i gynorthwyo a galluogi cyfarfodydd o bell.
3. Gweithio i alluogi cyfieithu darpariaeth gyda meddalwedd Microsoft Teams.
4. Darparu datganiad cyhoeddus i gefnogi Cyngor hygyrch ac amrywiol cyn y cyfnod etholiadau nesaf i hysbysu ymgeiswyr posibl.
5. Creu cynllun i gefnogi partneriaid a busnesau allanol i symud y rhaglen hinsawdd a newid hinsawdd yn ei flaen.
6. Sicrhau bod cofrestrï gwasanaeth a risg corfforaethol yn diffinio risgiau hinsawdd ac ecolegol ar lefelau priodol.
7. Diweddarau'r Tîm Gweithredol Corfforaethol am y sefyllfa gydag Adolygiad y Gwasanaethau Cynnal Corfforaethol.
8. Darparu eglurder i'r Uwch Dîm Arwain am rôl y Tîm Rheoli Prosiect.
9. Sicrhau bod cwestiwn yn cael ei ofyn ym mhob Her Perfformiad Gwasanaeth ynghylch ymrwymiad i wasanaeth i gwsmeriaid.
10. Sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu o achosion blaenorol o brynu adeiladau.
11. Ystyried capasiti staff i gefnogi cyfarfodydd dros y we a chynyddu'r nifer o Grwpiau Tasg a Gorffen Aelodau.
12. Hyrwyddo cydymffurfiaeth â Pholisi Caffael ar draws y Cyngor.
13. Sefydlu'r sefyllfa ddiweddaraf a lefel y risg sy'n gysylltiedig â dangosyddion asesiad risg/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd yn, neu sydd wedi bod yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella neu'n Dderbyniol.
14. Edrych ar ddatrysiadau hirdymor i gynnal Hwb Buddion Cymunedol.
15. Ystyried darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn benodol mewn cysylltiad â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw risgiau cysylltiedig i'r Cyngor.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Cyflwynodd y Cyngor fersiwn ddrafft o'i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol i'r [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin](#). Mae'r ddogfen hon yn asesu pa unai ydi'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (Cymru) 2016, ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd ar gyfer gwella i drefniadau llywodraethu. Bydd y meysydd hynny sydd wedi'u nodi ar gyfer gwella yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol.

Gellir darllen Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ar gyfer 2020 i 2021 yn y papurau ar gyfer [Cyngor Sir ym mis Mai](#). Mae'n arbennig o ddiddorol nodi fod Craffu wedi cytuno ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, a fabwysiadwyd gan y Cyngor 'nôl yn 2017, a'u bod yn parhau'n berthnasol o dan y pandemig, ac efallai hyd yn oed yn fwy pwysig nag erioed. Mae testunau pwysig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ymatebion gwasanaethau i Covid-19; cyflawniad addysgiadol; cynnal a chadw priffyrdd; tai a digartrefedd; Credyd Cynhwysol; adferiad busnes; Teithio Llesol; effeithiolrwydd Ffyrdd Newydd o Weithio; ailagor adeiladu sy'n perthyn i'r Cyngor; a Chydnerthedd Cymunedol. Cafodd penderfyniad y Cyngor i waredu tir ger Ysgol Pendref ei alw i mewn i'w adolygu.

Cynllunio Ariannol

Oedi cyn Cyhoeddi Datganiad Cyfrifon Drafft

Yn sgil effaith Covid-19 yn 2020 i 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn nodi y byddai terfynau amser statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon Drafft ac Archwiliwyd yn cael eu hymestyn. Serch hynny, cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych hysbysiad i ddweud na fyddem yn anelu at y terfyn amser cynnar statudol, ond byddem yn cyflawni'r terfynau amser diwygiedig. Y bwriad oedd y byddai'r cyfrifon drafft yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chraffu ym mis Gorffennaf a'r cyfrifon a archwiliwyd ym mis Medi. Serch hynny, roedd hi'n fwy cymhleth na'r disgwyl i lunio cyfrifon Hamdden Sir Ddinbych Cyf. ac fe gymerodd hi'n hirach na'r oedd y cwmni'n ei ddisgwyl i gael yr wybodaeth allanol. Ochr yn ochr â'r materion mewnol hyn, roedd gan Archwilio Cymru bryderon am eu capasiti i gyrraedd terfyn amser mis Medi i gwblhau'r archwiliad. Ar y cyd rydym bellach wedi cytuno y dylai'r set o gyfrifon wedi'u harchwilio gael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Pwyllgor

Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd, er eu bod yn gobeithio cwblhau'r gwaith archwilio cyn hynny. Mae hi'n bwysig nodi y bydd y cyfrifon yn cael eu cadarnhau o fewn yr amserlen rheoleiddio ddiwygiedig.

Archwilio Mewnol

Yn ystod y cyfnod yma mae archwilio mewnol wedi cynnal tri adolygiad sy'n ymwneud â chynllunio ariannol y Cyngor.

Archwilio Mewnol o Reoli Cyfalaf

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o [Reoli Cyfalaf](#) ym mis Mai 2021. Pwrpas yr adolygiad oedd adolygu, rheolau, gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu ar gyfer rheolaeth a buddsoddiadau cyfalaf, yn cynnwys gweithredu Strategaeth Gyfalaf a Chynllun Cyfalaf. Fe ystyriodd yr adolygiad parhad busnes a risg gyda pherson allweddol yng ngoleuni pandemig Covid-19. Fe nodwyd tri mater yn ystod yr adolygiad a amlinellwyd isod; mae cynlluniau gweithredu wedi'u cytuno ar gyfer eu cyfer i leihau'r risg:

- Mater 1 - Angen cofnodi gweithdrefnau rheoli cyfalaf.
- Mater 2 - Cofrestr Asedau Cyllid - Rheoli gwendidau, cynnal a chadw a gweithdrefnau cysoni.
- Mater 3 - Cylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Rheoli Asedau ac mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol angen ei adolygu a'i ddiweddarau.

Ar y cyfan, fe nodwyd yn yr adolygiad fod yna reolau effeithiol ar waith a bod enghreifftiau da o arferion gweithio, a dim ond mân wendidau a nodwyd. Felly rhoddwyd sgôr sicrwydd canolig.

Archwilio Mewnol Rheoli'r Trysorlys

Ym mis Mai 2021, cynhaliwyd archwiliad mewnol o [Reoli'r Trysorlys](#). Y pwrpas oedd adolygu rheolaethau, gweithdrefnau ac arferion mewn cysylltiad â rheoli'r trysorlys gan gynnwys unrhyw newidiadau a weithredwyd o ganlyniad i Covid-19 a'i effaith posibl ar lif arian. Fe nodwyd tri mater yn ystod yr adolygiad a amlinellwyd isod; mae cynlluniau gweithredu wedi'u cytuno ar gyfer eu cyfer i leihau'r risg:

- Mater 1 - Gwendidau wrth reoli risg - adnabod a lliniaru.

- Mater 2 - Gweithdrefnau Rheoli'r Trysorlys heb eu cofnodi.
- Mater 3 - Cofnodi penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys.

Ar y cyfan, darganfu'r adolygiad bod rheolaethau effeithiol wedi'u nodi gan y tîm cyllid ac roedd enghreifftiau da o arferion gweithio yn cynnwys gwahanu dyletswyddau, system rota a rhestr wirio cymeradwywyr Rheoli'r Trysorlys. Dim ond mân wendidau a nodwyd. Felly rhoddwyd sgôr sicrwydd canolig.

Archwilio Mewnol Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau (Mai 2021) Sicrwydd Uchel

Cynhaliwyd adolygiad archwilio mewnol blynyddol o [Wasanaethau Refeniw a Budd-daliadau](#), gan weithio mewn partneriaeth gyda Civica ym mis Mai 2021. Fe ganolbwyntiodd yr adolygiad ar effaith pandemig Covid-19 ar staff, perfformiad a rheolaethau presennol. Llenwyd ffurflenni Hunanasesiad Rheoli Risg a buont yn gymorth wrth benderfynu ar risgiau allweddol a rheolaethau i'w hadolygu, wedi'u cefnogi gan brofion sampl.

Ar 1 Ebrill 2015, ffurfiodd y Cyngor bartneriaeth gyda Civica i ddarparu gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau, ac ym mis Medi 2019, fe ymestynnwyd y contract ymhellach tan fis Mawrth 2025. Mae gwaith y Gwasanaeth wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan bandemig Covid-19, yn enwedig wrth brosesu taliadau ar gyfer grantiau busnes o dan derfynau amser tynn. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod 6,887 o daliadau gwerth £44 miliwn wedi'u talu i fusnesau. Maes allweddol arall o waith oedd dylunio proses newydd i wneud taliadau yn hytrach na darparu Prydau Ysgol Am Ddim i 3,800 o ddisgyblion cymwys.

Mae'r gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi gorfod addasu i ddatblygu prosesau newydd yn gyflym a chynnal gweithgareddau newydd o ganlyniad i Covid-19, ond mae rheolaethau a risgiau allweddol wedi'u rheoli'n effeithiol. Ar sail sgôp yr adolygiad, rhoddwyd sicrwydd uchel ar y cyfan.

Rheoli Perfformiad

Isod y mae'r camau gwella a nodwyd i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu yma.

Gweithredu proses flynyddol ar gyfer Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid ar berfformiad y Cyngor

Ar gyfer blwyddyn 1, gwnaed ychwanegiadau i Arolwg Preswylwyr Cyngor a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau newydd, helpu i adnabod meysydd i'w gwella a dylanwadu ar ein Hunanasesiad yn 2022. Y camau nesaf yw gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu a Gwasanaethau Llyfrgell i hyrwyddo a dosbarthu'r Arolwg a fydd yn cael ei lansio ym mis Medi. Bydd yr Arolwg ar agor am o leiaf chwe wythnos a bydd dadansoddiad yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr. Bydd canlyniad yr Arolwg yn helpu i lywio ein dull blynyddol i ymgysylltu â budd-ddeiliaid ym mlwyddyn 2.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Cymeradwyodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol [ym mis Gorffennaf](#), ynghyd â gweithredu cynlluniau gwasanaeth diwygiedig o fis Ebrill, cyflawnodd ei ddyletswydd gyfreithiol o dan adrannau 2 a 15 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, i sicrhau Gwelliant Parhaus ac asesu ein perfformiad. Treialodd yr adroddiad ein hymateb i ofyniad newydd i hunanasesu perfformiad o swyddogaethau'r Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd. Roedd yn boblogaidd ymhlith aelodau etholedig, a heriodd yn benodol perfformiad y Cyngor mewn cysylltiad ag effaith parhaus Covid-19; cysylltedd digidol; atgyweirio Pont Llannerch; a chynaliadwyedd tai presennol a thai newydd. Fe awgrymwyd bod nifer y bobl ar restr aros SARTH; cyflwr ein ffyrdd ddi-ddosbarth; diweithdra ymysg ieuenctid; tlodi ymysg plant yn feysydd penodol oedd angen rhagor o graffu. Caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ar ein [gwefan yma](#), a bydd camau gwella yn parhau i gael eu monitro drwy'r diweddariad perfformiad chwarterol ac adroddiadau perfformiad/ hunanasesu perfformiad blynyddol dilynol.

Fel y soniwyd amdano [uchod](#), fe ailgychwynnodd y Rhaglen Her Perfformiad Gwasanaeth ym mis Mehefin/ Gorffennaf, ac mae camau a nodwyd trwy'r broses fewnol yma o hunanasesu wedi'u hychwanegu i'w monitro yng Nghynlluniau Gwasanaethau yn 2021 i 2022.

Fe aeth adroddiadau Drafft Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 20219 i 2020 a 2020 i 2021 i'r [Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Gorffennaf](#). At ei gilydd, dengys y ddau adroddiad bod Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd da ar gyfer plant, oedolion a gofalwyr, a'n bod wedi perfformio'n

rhagorol mewn meysydd sy'n bwysig i'n dinasyddion ar adeg pan roeddem hefyd yn delio gyda phandemig Covid-19. Fe nodwyd naw maes i'w gwella i symud ymlaen â nhw yn 2021 i 2022. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Amddiffyn Oedolion i'r [Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Gorffennaf](#), hefyd. Ar y cyfan bu gwelliant yng nghysondeb ac ansawdd gwaith diogelu.

Mae Archwilio Mewnol wedi adolygu trefniadau Rheoli Prosiectau a Rhaglenni yn y Cyngor, gan edrych yn benodol ar reoli prosiect SC2, Adeiladau'r Frenhines a Rhaglen Adfywio'r Rhyl. Roedd yr adroddiad ar SC2, a gafodd sicrwydd canolig, yn tynnu sylw at rai anghysonderau gyda defnyddio methodoleg rheoli prosiect, roedd un risg mawr yn ymwneud â pheidio cydymffurfio â Rheolau'r Weithdrefn Contractau, ac ymrwymiad ariannol parhaus ar gyfer y safle. Ar y cyfan fodd bynnag, ar gyfer prosiect mor fawr ac uchelgeisiol, roedd yna system rhwng popeth oedd yn addas i lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Rhoddodd adroddiad dilynol am Adeiladau'r Frenhines Sicrwydd Canolig, gan ddilyn canllawiau rheoli prosiect wedi'u diweddarau; adolygiad o broses Grŵp Adolygu Cam; adolygu lefelau mynediad yn ein System Rheoli Prosiect a datblygu mecanwaith i fonitro manteision gan y Bwrdd Prosiect. Fe dynnodd yr adolygiad Archwilio Mewnol o [Raglen Adfywio'r Rhyl](#) (Sicrwydd Canolig) sylw at rai gwendidau, yn cynnwys dim cylch gorchwyl na rolau diffiniedig a chyfrifoldebau ar gyfer y Bwrdd Rhaglen, dim mecanwaith effeithiol i gofnodi ac adrodd gweithgareddau, yn cynnwys risgiau, manteision a pherfformiad. Fe argymhellir bod datrysiad mwy parhaol, sy'n gyson â byrddau rhaglen eraill y Cyngor yn cael ei roi ar waith, gan alinio â gwaith y Bwrdd Datblygu Cymunedol.

Yn olaf, cynhaliodd adran Archwilio Mewnol adolygiad dilynol o [Reoli Contract](#) yn y Cyngor, gan ddod i'r casgliad eto gan roi sgôr Sicrwydd Isel. Cynnydd cyfyngedig oedd wedi'i wneud ar fynd i'r afael â'r camau a nodwyd yn y cynllun gweithredu diwygiedig a gytunwyd ym mis Ionawr 2021. Mae gweithredu nifer o'r camau yn llawn wedi dibynnu ar gymeradwyaeth y Fframwaith Rheoli Contractau. Bydd yr Uwch Dim Arwain yn cael golwg ar y fframwaith ddrafft ym mis Gorffennaf 2021. Mae pwysau adnoddau parhaus wedi cyfyngu'r gallu i ddarparu trosolwg rheoli contract, hyfforddiant ac arweiniad priodol.

Rheoli Risg

Isod y mae'r camau gwella a nodwyd i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu yma.

Adolygiad Risg ffurfiol nesaf i roi ffocws penodol ar barodrzydd i dderbyn risg i helpu i wella dealltwriaeth y sefydliad o'i ddefnydd.

Bydd y cam yma'n cael ei gymryd ymlaen i Adolygiad mis Medi o Gofrestr Risgiau Corfforaethol, mae cyfarfodydd gyda Pherchnogion Risg wedi cael eu trefnu at fis Awst. Ein bwriad yw llunio Astudiaeth Achos i'w rannu gyda rheolwyr ac aelodau etholedig ynglŷn â gweithredu a deall Parodrzydd i Dderbyn Risg, gan ganolbwyntio ar risg benodol.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Bydd ein hadolygiad mis Medi yn symud ymlaen â chamau a nodwyd yn adolygiad Archwilio Mewnol mis Mehefin o Reoli Risg Gorfforaethol, gan geisio cynyddu ymgysylltu â pherchennog risg a gwella monitro a rheoli effeithiolrwydd. Ar y cyfan fodd bynnag, daeth yr adolygiad i'r casgliad fod mecanweithiau a gweithdrefnau priodol ar waith i adnabod a gwerthuso prif risgiau corfforaethol, ac mae yna broses barhaus i weithredu a sefydlu'r cysyniad o barodrzydd i dderbyn risg o fewn y Cyngor. Mae modd darllen crynodeb o adroddiad Archwilio Mewnol, a gafodd sicrwydd Canolig, yn Niweddariad Archwilio Mewnol a aeth i'r [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf](#).

Mae modd darllen Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2020 i 2021 ym [mhapurau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer mis Mehefin](#). Daeth i'r casgliad, lle mae problemau sylweddol wedi'u nodi, bod y rhain ar y cyfan wedi'u trin yn briodol, gan gadarnhau fod rheolwyr yn ymatebol ac yn barod i ymgysylltu i sefydlu amgylcheddau risg a rheoli da. Mae gwaith y tîm Archwilio Mewnol wedi tynnu sylw at feysydd o wendidau wrth reoli risgiau a /neu reolaethau allai roi cyflawni amcanion mewn perygl. Mae angen gwelliannau i fynd i'r afael â meysydd o'r fath er mwyn i fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fod yn briodol. Fel y blynyddoedd blaenorol, nid oedd yna unrhyw adroddiadau 'Dim Sicrwydd' yn ystod y flwyddyn.

Cynllunio'r Gweithlu

Isod y mae rhai o'r camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu yma.

Gan gwblhau Ffyrdd Newydd o Weithio, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddiant, datblygiad ac iechyd meddwl staff.

Mae holiadur i benderfynu ar anghenion hyfforddiant a datblygu rheolwyr i reoli ac arwain yn effeithiol yn y ffyrdd newydd o weithio wedi cael ei lansio, a bydd adborth o'r arolwg yn dylanwadu ar y cynllun hyfforddi wrth symud ymlaen. Mae polisi lechyd Meddwl wedi cael ei gytuno yn y Cabinet a bydd yn mynd yn fyw yn fuan. Mae rheolwyr canol yn cael sesiynau ymwybyddiaeth yn y Gynhadledd Arweinwyr ac mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer pob rheolwr a goruchwyliwr, a fydd yn dechrau ym mis Medi. Mae tudalennau lechyd Meddwl wedi cael eu cyhoeddi ar y rhynggrwyd a bydd y modiwl e-ddysgu'n mynd yn fyw pan fydd y polisi wedi'i gyhoeddi.

Gwella gwybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, yn cynnwys gwybodaeth cydraddoldeb, er mwyn cefnogi dadansoddiad mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae arolwg ar-lein newydd i gasglu gwybodaeth cydraddoldeb am ddechreuwyd newydd yn fwy hawdd wedi bod yn weithredol ers dros 18 mis. Mae hyn wedi arwain at gofnodi mwy o wybodaeth (492 o gofnodion yn cydweddu â gweithwyr ers ei weithredu), ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn fwy amlwg yn adroddiad Dyletswydd Sector Cyhoeddus nesaf, a fydd yn cael ei gwblhau ers blwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, fe fyddwn ni'n annog gweithwyr i naill ai cwblhau neu adolygu a diweddarau eu gwybodaeth cydraddoldeb ar iTrent pan fyddwn ni'n lansio fersiwn newydd o hunanwasanaeth gweithwyr yn gynnar yn 2022.

Gwella ein rhaglen cynllunio'r gweithlu ac ystyried sut orau i gynllunio ar gyfer swyddi sydd angen lefel penodol o Gymraeg yn uwch na Lefel 1.

Rydym yn cwblhau adolygiad cynllunio'r gweithlu yn flynyddol gyda phob gwasanaeth rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. Pwrpas yr adolygiadau yma yw darparu darlun mwy manwl o pa mor effeithiol y mae'r gweithlu ym mhob gwasanaeth yn cael ei gefnogi a'i reoli, amrywiaeth y gwasanaeth, a thynnu sylw at heriau sy'n ymwneud â chadw staff, neu'r heriau allai ddeillio o staff pwysig yn symud ymlaen i swydd arall. Rydym yn gweithio ar wella fformat a chyflawni'r adolygiadau yma dros y flwyddyn nesaf. Fe nodwyd yr angen am gynllunio gweithle mwy ffurfiol mewn [adolygiad archwilio mewnol](#) diweddar hefyd. Dechreuodd yr adolygiad ar gyfer swyddi sydd angen lefelau penodol o Gymraeg ym mis Rhagfyr 2019. Yn anffodus, daeth y gwaith yma i stop oherwydd Covid-19, ond bydd yn aildechrau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Cafodd polisi tâl y Cyngor ei ddiweddarau a'i gymeradwyo yn dilyn [adroddiad i'r Cyngor ym mis Mai 2021](#).

Cymeradwyodd y Cyngor y newidiadau i strwythur yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn [adolygiad o rôl Pennaeth Gwasanaeth Addysg a Phlant](#). Bydd y gwasanaeth yn parhau fel un ond gyda dau Bennaeth Gwasanaeth - un ar gyfer Addysg ac un ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi.

Asedau

Strategaeth Rheoli Asedau

Mae gwaith wedi dechrau ar lunio strategaeth rheoli asedau newydd ac mae gwaith ymgynghori mewnol cynnar wedi cael ei gynnal. Mae adroddiad wedi'i drefnu i gael ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli Asedau yn argymhell blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer y strategaeth newydd ar 19 Gorffennaf 2021. Os y caiff ei gymeradwyo, bydd fersiwn gyntaf y strategaeth newydd yn cael ei llunio, cyn ymgynghoriad ehangach.

Bydd Cylch Gorchwyl y Grŵp Rheoli Asedau'n cael ei adolygu'r flwyddyn ariannol yma er mwyn iddo barhau'n berthnasol ac alinio â deddfwriaeth briodol a blaenoriaethau'r Cyngor. Rydym ni'n dal i aros am Gylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Grŵp Buddsoddi Strategol gan y bydd Cylch Gorchwyl Grŵp Rheoli Asedau angen alinio â rhai'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Ffyrdd Newydd o Weithio – Isadeiledd Adeiladau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn parhau i ddilyn canllawiau presennol Llywodraeth Cymru o ran dychwelyd i'r gwaith, ac os gall staff weithio o adre, fe ddylent barhau i wneud hynny. Pan fydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn newid, rydym yn edrych ar weithredu trefniadau ar gyfer system rota i fod yn bresennol yn y swyddfa yn y tymor canolig. Dylai hyn sicrhau na fydd mwy na 50% o staff yn mynychu ar un adeg a chaniatáu cadw pellter cymdeithasol.

Dylid nodi bod y Tîm Rheoli Cyfleusterau wedi trosglwyddo o'r Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd i Wasanaeth Cyllid ac Eiddo, a dylai hyn wella gweithio'n effeithlon wrth fynd ymlaen a helpu gyda darpariaeth y prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio.

O ran cynnal a chadw adeiladau, cynhaliwyd busnes fel arfer trwy gydol y pandemig a'r cyfnodau clo. Lleihawyd atgyweiriadau adweithiol o ganlyniad i leihad yn nefnydd yr adeiladau, a alluogodd mwy o ffocws ar brosiectau cynnal a chadw cyfalaf mwy oedd wedi'u cynllunio. Effeithiwyd ar argaeledd contractwyr a deunyddiau am gyfnod byr i ddechrau, tra bod mesurau addas yn cael eu rhoi mewn lle yn dilyn asesiadau risg a chadarnhad o ganllawiau Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd busnes fel arfer ar gyfer agweddau dylunio ac adeiladu hefyd trwy gydol y cyfnodau hyn. Bychan iawn oedd yr ymyrraeth ddechreuol gan fod opsiynau gweithio o bell eisoes wedi'u sefydlu o fewn y tîm.

I weld yr adroddiad llawn a chanllawiau sy'n ymwneud ag adeiladau'r Cyngor, darllenwch bapur [Thema Adferiad Covid-19 – Adeiladau'r Cyngor](#) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Gorffennaf 2021.

Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgol a rhai Nad Ydynt yn Ysgolion

Un o brif swyddogaethau tîm cynnal a chadw eiddo Cyngor Sir Ddinbych yw darparu gwasanaeth atgyweirio eiddo ymatebol o ddydd i ddydd i ysgolion ac adeiladau eraill. Mae contractwyr yn cael eu dewis ar ôl ymarfer tendro yn seiliedig ar gost ac ansawdd, a'u maes arbenigedd e.e. mecanyddol neu drydanol. Bydd y Fframwaith yn cefnogi'r tîm cynnal a chadw eiddo i gynnal adeiladau cyhoeddus a chyfleusterau addysg ar gyfer ein pobl ifanc sy'n saff a diogel, gan ddefnyddio contractwyr lleol lle bo modd, a darparu cyfleoedd am brofiad gwaith i bobl sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i leoliadau gwaith trwy'r elfennau buddion cymunedol. Mae'r gwariant blynyddol ar waith atgyweirio a chynnal a chadw ar hyn o bryd tua £2 filiwn, felly £8 miliwn dros oes y Fframwaith. Bydd y Fframwaith yn caniatáu i ni fod â contractwyr cymwys ac addas ar gael i ymateb i broblemau cynnal a chadw yn ôl yr angen, i sicrhau bod ein hadeiladau mewn cyflwr da ac atal unrhyw adeiladau rhag gorfod cau am eu bod yn anniogel.

TGCh

[Fe adolygodd Archwilio Mewnol Capasiti a Chydnerthedd TGCh](#) a rhoddwyd sgôr boddhaol. Fe ganolbwyntiodd y sgôp ar Gynlluniau Adfer Argyfwng TG a Chynlluniau Parhad Busnes a phrofi, trefniadau wrth gefn, monitro a rheoli capasiti lled band rhwydwaith, capasiti staff, yn cynnwys cynllunio'r gweithlu yn benodol i TGCh.

Mae nifer y rhai sy'n cysylltu-o-bell i rwydwaith y Cyngor wedi cynyddu pedair gwaith ers y pandemig a'r cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Daeth yr adolygiad i'r casgliad er

bod mecanweithiau yn eu lle i fonitro capasiti defnydd lled band y rhwydwaith, nid yw'r broses bresennol yn galluogi monitro yn ystod cyfnodau prysur.

Mae gan y Cyngor 2 ystafell weinyddwyr sydd yn gweithredu fel adnodd wrth gefn gan ddarparu cydnerthedd. Mae trefniadau yn eu lle gyda chyflenwr i ddarparu uned caledwedd y gellir ei gludo i adfer systemau pe na fyddai modd defnyddio gweinyddwyr yn ystod argyfwng; serch hynny, nid yw effeithiolrwydd y trefniadau wedi cael eu gwirio yn y blynyddoedd diwethaf.

Codwyd pedwar risg a chytunwyd ar gamau fel a ganlyn:

1. Llunio amserlen i annog adolygiad o bolisiâu a chynlluniau TGCh.
2. Gweithio gyda phartneriaid allanol i wella mecanweithiau adrodd monitro lled band.
3. Profi datrysiaid adferiad argyfwng allanol.
4. AD i arwain ymarferion cynllunio'r gweithlu ar draws pob gwasanaeth yn cynnwys TGCh.

Ffyrdd

Yn rhan o ymrwymiad gwerth £3m Cyngor Sir Ddinbych i ffyrdd yn y Sir rhwng 2021 a 2022, mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen gwella arwynebau ffyrdd gwerth £800,000. Bydd nifer o leoliadau ar draws Sir Ddinbych yn elwa o'r rhaglen gwella arwynebau ffyrdd, a luniwyd i selio ffyrdd sydd mewn cyflwr rhesymol ar hyn o bryd i rwystro dirywiad pellach.

Bydd gwaith ail-wynebu pellach i wella cyflwr ein ffyrdd blaenoriaeth uchel sydd fwyaf ei angen yn mynd rhagddo eleni. Bydd [bwletin gwaith ffordd y Cyngor](#) yn cael ei ddiweddarw wrth i fanylion y ffyrdd a ddewisir i gael eu gwella gael eu cyhoeddi.

[Cafodd Cynllun Adferiad ar gyfer Priffyrdd a Pharth Cyhoeddus](#) ei gyflwyno i'r pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Medi 2020 er mwyn amlinellu effeithiau pandemig Covid-19. Mae'r adroddiad yn nodi y bydd adferiad priffyrdd yn digwydd mewn 2 gam:

- Adferiad tymor byr yw Cam 1, h.y. yr angen i ailgychwyn gweithgareddau cynnal a chadw priffyrdd "normal". Mae hyn yn hollbwysig, yr hiraf yr awn ni heb ddychwelyd i "normal", y mwyaf anodd (a mwyaf drud) y bydd hi i ddychwelyd y rhwydwaith yn ôl i'w gyflwr cyn y llifogydd yn 2020.

- Cam 2 yw'r angen i sefydlu model mwy cynaliadwy o gynnal y rhwydwaith priffyrdd i safon sydd yn cyd-fynd â disgwyliadau ein preswylwyr ac Aelodau Etholedig yn yr hirdymor.

Mae'r cynllun adferiad yn canolbwyntio'n bennaf ar adferiad tymor byr (Cam 1). Bydd adferiad a chynaliadwyedd hirdymor (Cam 2) yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyllideb, Grŵp Buddsoddi Strategol a rhan o broses gosod cyllideb at y dyfodol.

Caffael

Isod y mae'r camau gwella a nodwyd i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu yma.

Integreiddio gwarchod bioamrywiaeth a gwella ein prosesau caffael a gyrru manteision cymunedau sydd yn gwella'r amgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog arferion carbon isel. Byddwn yn llunio strategaeth gaffael newydd.

Mae'r tîm caffael wedi nodi'r rhai sydd yn ymgymryd â chaffael yn rheolaidd er mwyn targedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol, a'r cyfraniad y gall caffael amgylcheddol yn gyfrifol ei wneud. Mae gwaith wedi dechrau ar greu banc o gwestiynau penodol yn ymwneud â charbon ac ecoleg i'w defnyddio yn y broses o werthuso tendrau. Mae'r tîm Newid Hinsawdd yn gweithio gyda Swyddogion Caffael i lunio a chyflawni Cynllun Gwaith Caffael Carbon Isel, sy'n cynnwys estyn allan ac ymgysylltu â busnesau. Mae cynnydd gyda llunio strategaeth gaffael newydd wedi bod yn gyfyngedig yn y cyfnod yma.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Mae gan y tîm caffael broblemau capasiti hyn o bryd. Fe ddylai llenwi swydd wag Rheolwr Caffael liniaru rhywfaint ar y pwysau, yn ogystal â gweld gwelliant mewn cysylltiad â datblygu strategaeth gaffael yn benodol, dros y 3 i 6 mis nesaf.

Tynnodd [adroddiad](#) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Ebrill 2021 sylw at feysydd lle gellir gwella caffael (o ran y broses a chanlyniadau) i sicrhau gwelliannau mewn lles, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ystod o weithredoedd wedi'u cytuno a byddant yn cael eu cynnwys yn y strategaeth gaffael ddiwygiedig.

Daeth her perfformiad gwasanaeth mewnol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021 i'r casgliad bod rhai agweddau o gaffael angen rhagor o sylw. Cytunwyd ar ddau gam gweithredu. Y cyntaf oedd annog arferion caffael da ar draws y sefydliad trwy weithio gyda gwasanaethau i godi ymwybyddiaeth o bolisi caffael, a chydymffurfio ag o. Fe ddylai hyn gynnwys cefnogi gwasanaethau i ystyried y math a hyd o gontractau y maent eu hangen, a lle'n bosibl, cefnogi busnesau lleol gyda'r nod o ysgogi ein heconomi leol. Dylid ystyried lefel yr adnoddau staffio yn y tîm caffael. Yr ail ddewis yw edrych ar ddewis hirdymor i gynnal y Hwb Buddion Cymunedol i sicrhau y ceir y mwyaf o fanteision i'n cymunedau.

Er mwyn manteisio ar y potensial i gaffael ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint, fe gymeradwywyd polisi caffael ar y cyd yn chwarter 1. Mae'r polisi yn nodi ein ffordd gytûn o weithio i gynnwys manteision cymunedol (y caiff eu galw'n werth cymunedol yn Sir y Fflint) yn ein pryniannau, fframweithiau ar y cyd a systemau prynu deinamig. Bydd rhoi polisi cytûn ar waith yn sicrhau nad yw manteision cymunedol yn cael eu trin fel rhwystr i gaffael ar y cyd yn y dyfodol.

Fe gefnogodd Hwb Buddion Cymunedol sawl caffaeliad sylweddol i gynnwys manteision cymunedol, yn cynnwys Cam 1 ailddatblygiad Marchnad y Frenhines; Fframwaith Cynnal a Chadw Tai Cyngor Sir Ddinbych, a phrosiectau adfywio Llangollen 2020.

Daeth porth IMPACT ar-lein yn gwbl weithredol gan gofnodi a thracio cytundebau adran 106 'byw' presennol. Mae'r porth yn cadw'r holl wybodaeth berthnasol ar gytundebau adran 106 mewn un lleoliad hygyrch, ac mae'n rhoi gwybod i staff am bwyntiau trothwy allweddol. Mae'r Hwb Buddion Cymunedol wedi gweithio gydag adrannau cynllunio, tai fforddiadwy a mannau agored i'w cyflwyno i'r porth, ac mae wedi cyflwyno rhywfaint o hyfforddiant cychwynnol.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Teitl	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Bodddhad cyffredinol â'r Cyngor (%) - wedi'i feincnodi'n lleol	40	Dim data Arolwg i'w gynnal yn yr hydref	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedr fesul awr i ferched - wedi'i feincnodi'n lleol	7.7	-9.7 Adroddiad nesaf ym mis Hydref 2021	Rhagorol
Canran y swyddi â chyflogau isaf (chwarter isaf) a ddelir gan ferched - wedi'i feincnodi'n lleol	79.4	79.1 Adroddiad nesaf ym mis Hydref 2021	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gweithwyr newydd oedd wedi datgan yn eu ceisiadau eu bod yn perthyn i grŵp lleiafrifol ar sail hil neu grefydd, bod ganddynt anabledd, eu bod yn hoyw neu'n ddeurywiol, neu wedi ail-bennu eu rhywedd - wedi'i feincnodi'n lleol	7	15 Adroddiad nesaf ym mis Hydref 2021	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Teitl	2019 i 2020	2020 i 2021	Statws
Presenoldeb aelodau (disgwyliedig a phresennol), yn y flwyddyn hyd yn hyn - wedi'i feincnodi'n lleol	79	89	Da
Sero Carbon Net - Cyfanswm y tunelledd carbon a ollyngir ac a amsugnwyd gan y Cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi) - wedi'i meincnodi'n lleol	14,030	10,277	Da

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

Teitl	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Statws
Canran Mesurau'r Cynllun Corfforaethol sydd yn dangos fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' - wedi'i feincnodi'n lleol	Dim data oherwydd Covid-19	47	49	49	41	Derbyniol
Y nifer o brosiectau ar y gofrestr prosiect sy'n dangos 'dan fygythiad' - wedi'i feincnodi'n lleol	0	2	0	1	2	Derbyniol
Canran y prosiectau â ffydd o ran cyflawni a ddiweddarwyd yn y tri mis diwethaf - wedi'i feincnodi'n lleol	Dim data Newydd i chwarter 3	Dim data Newydd i chwarter 3	90	94	96	Da
Canran y risgiau corfforaethol sydd yn anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor - wedi'i feincnodi'n lleol	Dim data Newydd i chwarter 2	52	Dim data Bob chwe mis	55	Dim data Bob chwe mis	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer yr adroddiadau negyddol gan gyrff rheoleiddio allanol	0	0	0	0	0	Rhagorol

Teitl	Chwart er 1 2020 i 2021	Chwart er 2 2020 i 2021	Chwart er 3 2020 i 2021	Chwart er 4 2020 i 2021	Chwart er 1 2021 - 2022	Statws
- wedi'i feincnodi'n lleol						
Nifer yr adroddiadau Archwilio Mewnol a roddodd sgôr sicrwydd isel yn y flwyddyn ariannol hyd yn hyn - wedi'i feincnodi'n lleol	1	2	4	4	0	Rhagorol
Amrywiant yng Nghyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth	7,393	5,107	2,242	-718	708	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Cronfeydd wrth gefn y Cyngor (£000)	7,135	7,135	7,135	7,135	7,135	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Canran straeon negyddol yn y newyddion o blith yr holl straeon newyddion am y Cyngor - wedi'i feincnodi'n lleol	5	4	12	24	10	Derbyniol
Canran cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf - wedi'i feincnodi'n lleol	67	63	52	57	62	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Cyfartaledd treigl nifer y	Dim data	6.57	6.61	6.47	7.12	Derbyniol

Teitl	Chwarter 1 2020 i 2021	Chwarter 2 2020 i 2021	Chwarter 3 2020 i 2021	Chwarter 4 2020 i 2021	Chwarter 1 2021 - 2022	Statws
diwrnodau/sifftiau gwaith a gollwyd oherwydd salwch fesul pob gweithiwr cyfwerth â llawn amser - wedi'i feincnodi'n lleol	oherwydd Covid-19					
Canran y staff a gafodd 3 o gyfarfodydd unigol yn y 12 mis diwethaf - wedi'i feincnodi'n lleol	Dim data Newydd i chwarter 4	Dim data Newydd i chwarter 4	Dim data Newydd i chwarter 4	45	44	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gwariant gyda chyflenwyr wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych - wedi'i feincnodi'n lleol	30	36	34	36	33	Da
Canran cronus contractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1,000 sy'n cynnwys manteision cymunedol - wedi'i feincnodi'n lleol	Dim data Newydd i chwarter 4	Dim data Newydd i chwarter 4	Dim data Newydd i chwarter 4	12	75 Bellach yn cael ei adrodd fel dangosydd cronus	Rhagorol
Nifer cronus y lleoliadau profiad gwaith y mae'r Cyngor yn eu cynnig	28	28	28	36	64	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Camau Gwella

Isod y mae camau gwella sydd wedi'u nodi trwy'r adroddiad:

- Cyngor i recriwtio dau Bennaeth Gwasanaeth ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cyngor yn cefnogi Addewid Dim Hiliaeth Cymru

Ym mis Ebrill, mabwysiadodd y Cyngor yr Addewid Dim Hiliaeth Cymru sydd yn datgan nad yw'r Cyngor yn barod i oddef hiliaeth ar unrhyw ffurf ac yn cefnogi galwadau Dim Hiliaeth Cymru i bob sefydliad ac unigolyn hyrwyddo cytgord hiliol ac ymrwymo i hyn yn y gweithle ac yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Bwriad yr addewid yw hyrwyddo gweithle mwy cynhwysol a chyfartal a chymdeithas sy'n rhoi'r hawl i bob unigolyn yng Nghymru deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys. Mae'r Cyngor yn annog sefydliadau eraill yn y Sir yn ogystal ag unigolion i ymrwymo i'r addewid hefyd.

Asesiad anghenion ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr bob pum mlynedd. Mae Grŵp Tasg a Gorffen Craffu Cymunedau bellach wedi cael ei sefydlu i gefnogi'r gwaith yma, ond nid yw'n cynnwys edrych ar leoliadau safleoedd. Bydd y grŵp hefyd yn cynorthwyo wrth ddatblygu cynllun ymgysylltu â budd-ddeiliaid, er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ynghylch y prosiect. Bwriedir dechrau'r drefn ymgynghori yn yr haf, gan siarad â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned ehangach, gan gynnwys grwpiau cynrychiadol.

Neges o undod i'n cymunedau amrywiol yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych

“Mae arnom angen ein gilydd, a gallwn ddysgu cymaint oddi wrth ein gilydd hefyd. Gallwn fod yn wahanol gyda'n gilydd.” Dyma eiriau Gwahanol gyda'n Gilydd, ffilm fer newydd gan Gydlyniant Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a'r gwneuthurwr ffilm o Wrecsam, Rob Corcoran. Mae Gwahanol gyda'n Gilydd yn dathlu Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych fel llefydd o groeso, gan gynnwys safbwyntiau cadarnhaol ar fyw mewn cymuned amrywiol. Bydd Cydlyniant Rhanbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru'n cynnal Fforwm Gwahanol Gyda'n Gilydd. Os ydych chi'n rhan o grŵp cymunedol, neu os ydych chi'n darparu cymorth yn y gymuned – neu os hoffech chi wneud mwy o gyfraniad at gynnal gweithgareddau yn eich ardal sy'n croesawu amrywiaeth – yna mae'r fforwm yn gyfle ichi rannu syniadau ac adnoddau. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cydlynnydd Cydlyniant â'r Emily Reddy yn emily.reddy@wrexham.gov.uk.